# Adferiad Gwyrdd – Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu

Cyhoeddwyd: 03 Rhagfyr 2020

Published by:
Natural Resources Wales
Cambria House
29 Newport Road
Cardiff
CF24 0TP

0300 065 3000 (Mon-Fri, 8am - 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

© Natural Resources Wales

# Cynnwys

**Rhagair** .......... 3

**Crynodeb Gweithredol** .......... 4

**Camau blaenoriaeth** .......... 5

**1. Cyflwyniad** .......... 11

**2. Camau ymarferol wedi'u blaenoriaethu ar gyfer yr adferiad gwyrdd**..... Error! Bookmark not defined.

**3. Yr hyn a ddywedasoch: Syniadau da ar gyfer adferiad gwyrdd Cymru** ..... 17

**4. Atebion ar Sail Natur – conglfaen yr adferiad gwyrdd** .......... 22

**5. Trawsewid ein systemau economaidd-gymdeithasol** .......... 30

**6. Galluogwyr yr adferiad gwyrdd**.......... Error! Bookmark not defined.

**7. Camau nesaf: Sefydlu Partneriaeth Darparu Adferiad Gwyrdd**.......... Error! Bookmark not defined.

**Atodiadau** .......... 65

# Rhagair

Mae llawer ohonom yn dechrau wynebu’r ffaith y bydd pob agwedd ar fywyd yn wahanol iawn ar ôl y pandemig hwn. Mae'n anochel bod amrywiaeth o safbwyntiau ar sut y gallai'r newid hwnnw edrych. Yn y cyfamser, mae heriau o ran newid yn yr hinsawdd a dinistr yr amgylchedd naturiol yn parhau’n faterion cyson a thyngedfennol.

Ar lefel syml mae dewis clir. Mae angen newidiadau enfawr o drawsnewid polisi macro i brosiectau micro sy'n gallu dangos pa newidiadau y gellir eu gwneud a pha mor gyflym.

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd wedi ceisio canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei wneud yn y tymor byr gan ddefnyddio arloesedd yn ogystal â nodi newidiadau mwy tymor canolig y dylid eu harchwilio. Mae'n gwbl glir nad oes prinder meddwl radical a phrosiectau posibl, ond ar yr un pryd mae rhwystredigaeth ynghylch cymhlethdod y broses a'r gweithdrefnau i'w dilyn i wireddu hyd yn oed y syniadau symlaf, weithiau. Mae rhywfaint o hyn yn strwythurol. Mae'r heriau sy'n ein hwynebu yn gymhleth ac yn ymestyn ar draws sefydliadau a rhaid i ni gydweithio, o fewn a rhwng sefydliadau, i sicrhau ein bod yn cyflawni ein huchelgeisiau'n effeithiol.

Wrth ddewis amrywiaeth o gynigion i'w datblygu ar frys, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen am ddangos y gall newid ddigwydd yn gyflym ac y gall prosiectau a chynlluniau weithredu fel cerrig milltir, i ddangos yr hyn y gellir ei gyflawni er mwyn i eraill ei efelychu.

Dimensiwn arall o hyn yw'r pŵer i ryddhau 'cymunedau buddiant', i'w galluogi i weithredu eu hunain. Rhan o'n briff oedd archwilio sut y gallwn gefnogi a meithrin ein sefydliadau anllywodraethol (NGOau), yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â materion amgylcheddol. Gall y sefydliadau hyn chwarae rhan ganolog wrth fwrw ymlaen â'r agenda bwysig hon. Mae adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys cyfres o argymhellion a all, yn ein barn ni, wneud gwahaniaeth mawr yn hyn o beth.

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi ymrwymo i barhau â'i waith gan ganolbwyntio ar gyflawni, ac fe’i cefnogir gan adnoddau sy'n cael eu cyfrannu gan sefydliadau partner o amgylch y bwrdd a thu hwnt. Credwn y bydd hyn o gymorth mawr i Lywodraeth Cymru wrth fwrw ymlaen ag agenda’r adferiad gwyrdd.



Sir David Henshaw

Cadeirydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adferiad gwyrdd yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i gyflymu datblygiad ar hyd llwybr mwy cynaliadwy. Ni fydd newid fesul tipyn yn ddigon i yrru'r newidiadau systemig a thrawsnewidiol sydd eu hangen ar gyfer adferiad gwyrdd a chymdeithasol deg.

Dros y 12 mis nesaf, yn y cyfnod cyn COP15 a COP26, rhaid i Gymru arwain y ffordd, gan gydweithio ar draws ffiniau sefydliadol a gwleidyddol i ddangos y gwahaniaeth y gallwn ei wneud i argyfyngau natur a'r hinsawdd er lles ein plant a phlant ein plant.

Mantra'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen fu sut i wneud i bethau ddigwydd er mwyn sicrhau gwelliannau ar lawr gwlad. Er ei fod yn cydnabod bod Cymru mewn sefyllfa dda i ymateb i her adferiad gwyrdd, drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd a'r fframweithiau polisi strategol ategol, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn credu bod bwlch sylweddol o ran gweithredu.

Mae pontio'r bwlch hwn wedi llywio dull gweithredu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, wrth iddo geisio gwneud i bethau ddigwydd yn gyflym, gan adeiladu momentwm drwy ddangos yr hyn y gellir ei gyflawni drwy gydweithio a mynd ar drywydd dulliau arloesol y gellir eu profi.

Cyflwynwyd 168 o gynigion gan unigolion, grwpiau a sefydliadau o bob rhan o Gymru. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn diolch i bawb sydd wedi cyfrannu ac yn credu bod hyn yn esiampl o obaith, gan adlewyrchu brwdfrydedd, egni ac ymrwymiad llawer o bobl ledled Cymru i fanteisio ar y cyfle hwn i ysgogi newid. Rhaid inni ddal ein gafael ar y brwdfrydedd hwn, i ysbrydoli eraill i weithredu.

# Sefydlu Partneriaeth Cyflawni Adferiad Gwyrdd

Er mwyn cynnal ac adeiladu momentwm, mae aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi ymrwymo i barhau i gydweithio, gan ffurfio Partneriaeth Cyflawni Adferiad Gwyrdd.

Mae adnoddau wedi'u hymrwymo i gefnogi'r bartneriaeth hon, gyda swyddfa rhaglen fach yn cael ei chynnal gan CNC gyda staff wedi'u hymrwymo gan Dŵr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Busnes yn y Gymuned, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a'r Comisiwn Ffermio Bwyd a Chefn Gwlad. Bydd aelodau eraill o'r Grŵp yn parhau i ddarparu eu harbenigedd.

Drwy gronni eu harweinyddiaeth gyfunol, bydd y Grŵp yn rhoi cymorth uniongyrchol i'r rhai sydd wedi cyflwyno cynigion, i'w galluogi i yrru'r broses weithredu yn ei blaen.

Ym mis Chwefror 2021, bydd y Grŵp yn arwain galwad arall am gynigion, gan alluogi eraill i gyfrannu, a bydd yn parhau i annog eraill i gymryd rhan yn y ddeialog barhaus.

# Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

## Rhaid i Atebion sy'n Seiliedig ar Natur fod yn gonglfaen i'r adferiad gwyrdd.

Mae'r Grŵp yn cydnabod bod yr atebion hyn yn mynd i'r afael â'r argyfyngau yn yr hinsawdd a natur ac yn cynnig manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lluosog. Bydd buddsoddi mewn Atebion Sy'n Seiliedig ar Natur yn sbarduno cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau a chyflogaeth, nid yn unig o ran darparu rhaglenni gwaith yn uniongyrchol, ond hefyd gyfleoedd ar lefelau uwch i gyflenwi deunyddiau ac ysgogi busnesau newydd. Am y rheswm hwn, maent yn aml yn gost-effeithiol. Bydd y camau gweithredu'n canolbwyntio ar amrywiaeth o ecosystemau ar dir a môr, gan gynnwys:

- Bioamrywiaeth, gan gynnwys gwella safleoedd gwarchodedig
- Adfer mawndiroedd
- Adfer ac ehangu coetiroedd a gwrychoedd
- Carbon glas[1] yn yr amgylchedd morol
- Adfer afonydd a gwlyptiroedd

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn credu ei bod yn hanfodol symud tuag at ddull ariannu hirdymor i gefnogi buddsoddiad mewn Atebion sy'n Seiliedig ar Natur. Mae angen i arian fod ar gael dros nifer o flynyddoedd i annog cydweithio a gweithio mewn partneriaeth.

## Cynigion Atebion sy'n Seiliedig ar Natur y bydd y Bartneriaeth Cyflawni Adferiad Gwyrdd yn eu cefnogi:

Mae'r Grŵp wedi nodi 7 cynnig Blaenoriaeth Un a fydd yn ganolbwynt i ymdrechion cychwynnol y Bartneriaeth Gyflawni.

Tabl 1: Cynigion Atebion sy'n Seiliedig ar Natur y bydd y Bartneriaeth Cyflawni Adferiad Gwyrdd yn eu cefnogi

| Sefydliad | Enw'r cynnig |
|---|---|
| Trees for All | More Trees Now |
| Farm Garden | Orchards for Wales |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Advancing i-Tree - cefnogi gwelliannau i seilwaith gwyrdd trefol ledled Cymru |
| Coed Cadw | Tree Towns Teams for Wales |
| WoodKnowledge Wales | Home Grown Homes 2 |
| DCWW | Datblygu prosiectau bioamrywiaeth drwy Banel Cynghori Amgylcheddol Annibynnol Dŵr Cymru (sy'n cynnwys cynrychiolwyr cyrff |

[1] Yn cynnwys cynefinoedd morwellt a morfeydd heli

| Sefydliad | Enw'r cynnig |
|---|---|
| | anllywodraethol amgylcheddol / CNC yn bennaf) IEAP i gefnogi gwydnwch ecolegol ac o ran newid yn yr hinsawdd |
| DCWW | Datblygu Gwasanaethau Ecosystem yn seiliedig ar y Farchnad (MES) i gefnogi rheolaethau llygredd gwasgaredig, a gwella gwydnwch ecolegol |

Bydd cyfanswm o 8 Cynnig Blaenoriaeth Dau hefyd yn cael cymorth i fireinio a datblygu eu syniadau ymhellach.

## Trawsnewid ein systemau economaidd-gymdeithasol

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod y rôl bwysig y gall yr adferiad gwyrdd ei chwarae wrth drosglwyddo i economi gylchol, sero net sy'n cefnogi natur ac yn creu cyfleoedd sylweddol ar gyfer swyddi a datblygu sgiliau. Mae cynigion wedi'u blaenoriaethu gan wyth sector o economi Cymru:

- Bwyd
- Morol
- Ailddychmygu ein hardaloedd trefol
- Teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy
- Economi gylchol
- Twristiaeth
- Tai
- Iechyd a Lles

## Cynigion economaidd-gymdeithasol y bydd y Bartneriaeth Cyflawni Adferiad Gwyrdd yn eu cefnogi:

Mae'r Grŵp wedi nodi 33 cynnig Blaenoriaeth Un a fydd yn ganolbwynt i ymdrechion cychwynnol y Bartneriaeth Gyflawni. Cynigion Blaenoriaeth Un:

Tabl 2: Cynigion economaidd-gymdeithasol y bydd y Bartneriaeth Cyflawni Adferiad Gwyrdd yn eu cefnogi.

| Sefydliad | Enw'r cynnig |
|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru | CNC a systemau bwyd cynaliadwy carbon isel |
| Deepdock Ltd | Seas of Change: The Collaborative Development of Open Water Shellfish Production and Functional Foods Supply Chain in Wales |
| Sustainable Food Places | Transitioning to a low carbon, sustainable food system through making Wales a nation of local cross-sector food partnerships and a creating a Wales good food movement. |
| Synnwyr Bwyd Cymru | Growing our growers to grow |

| Sefydliad | Enw'r cynnig |
|---|---|
| Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol Cymru | Urban Agriculture – Food Production where it is most needed |
| Canolfan Gymunedol Penparcau | Prosiect Plannu Penparcau |
| Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol Cymru | Coridorau Peillio |
| Fields in Trust | Enabling a Permanent Green Recovery for Wales |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Gwyrddio Tai Cymdeithasol |
| Y Gymdeithas Cadwraeth Forol | A reusable start to life! |
| Going Green for a Living CLT Ltd | Nutrient Recycling - Integrated Biomass Hubs |
| Going Green for a Living CLT Ltd | Reuse and Repair Trading Network Cymru |
| Cadwch Gymru'n Daclus | Prentisiaethau Trwsio |
| Halen Môn | Newidiadau parcio yn Eryri sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth |
| Halen Môn | Llwybr asgwrn cefn gwyrdd yn Ynys Môn |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Llwybr beicio a llwybr troed amlbwrpas rhwng y Borth, Ynyslas a GNG Dyfi sy'n gysylltiedig â chyfleoedd lleol iechyd a lles fel rhan o Biosffer Dyfi. |
| Parc Cenedlaethol Eryri | Dylunio a gweithredu dull trafnidiaeth gynaliadwy integredig |
| Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Buddsoddi mewn ffyrdd gwell i gysylltu a symud pobl; drwy ddarparu cymhellion i annog pobl yn ôl ar drafnidiaeth gyhoeddus a buddsoddi mewn seilwaith teithio llesol |
| Parc Cenedlaethol Eryri | Dylunio a gweithredu dull Twristiaeth Gynaliadwy integredig sy'n seiliedig ar adlunio'r systemau parcio a thrafnidiaeth yn radical yn ardal Yr Wyddfa ac Ogwen ym Mharc Cenedlaethol Eryri. |
| Cadwch Gymru'n Daclus | Ardoll Ymwelwyr |
| Cartrefi Cymunedol Cymru | Buddsoddi yn sgiliau a chartrefi'r dyfodol i sicrhau adferiad economaidd gwyrdd |
| Canolfan Gydweithredol Cymru | Ailgodi'n Gryfach - Cefnogi Busnesau Bach a Chanolig a Mentrau Cymdeithasol i Ôl-osod Cartrefi Cymru |
| Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Cefnogi datgarboneiddio cartrefi, drwy adeiladu tai carbon isel, fforddiadwy |
| WoodKnowledge Wales | Home Grown Homes 2 |
| Ty Pren | Chwyldro adeiladu gwyrdd |
| Grŵp TYF | WISH Wales – Wellbeing Innovation for Sustainable Health |
| Grŵp TYF | Ymarferwyr Cenedlaethau'r Dyfodol |

Bydd cyfanswm o 35 cynnig blaenoriaeth dau hefyd yn cael cymorth i fireinio a datblygu eu syniadau ymhellach.

Bydd 18 o gynigion yn cael eu cysylltu â rhaglen a gefnogir gan Gomisiwn, Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad Cymru i gyflymu'r newid tuag at gynhyrchu bwyd iach, hygyrch a fforddiadwy yng Nghymru yn gynaliadwy.

## Galluogwyr yr Adferiad Gwyrdd

Mae sicrhau'r manteision mwyaf posibl sy'n gysylltiedig â buddsoddi yn yr adferiad gwyrdd yn dibynnu ar alluogi gweithredu ym meysydd sgiliau, prentisiaethau a chaffael. Dyma'r allwedd i gyflawni uchelgais y Llywodraeth ar gyfer swyddi da gyda rhagolygon hirdymor.

Mae cynigion wedi'u blaenoriaethu ar gyfer:

- sgiliau, creu swyddi a marchnadoedd newydd
- modelau cyllid a chyflenwi amgylcheddol

## Camau galluogi y bydd y Bartneriaeth Cyflawni Adferiad Gwyrdd yn cefnogi:

Mae'r Grŵp wedi nodi 9 cynnig Blaenoriaeth Un a fydd yn ganolbwynt i ymdrechion cychwynnol y Bartneriaeth Gyflawni. Cynigion Blaenoriaeth Un:

Tabl 3: Camau galluogi y bydd y Bartneriaeth Cyflawni Adferiad Gwyrdd yn cefnogi:

| **Sefydliad** | **Enw'r cynnig** |
|---|---|
| Cyflwyniad ar y cyd: CGGC a FFCC | Gwasanaeth Natur Cenedlaethol ar gyfer Cymru |
| Groundwork in Wales | Sgiliau Gwyrdd: Swyddi Gwyrdd: Adferiad Gwyrdd – rhaglen gyflogadwyedd werdd ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed |
| Ymddiriedolaethau Natur Cymru | Cronfa Swyddi Adnoddau Naturiol |
| Cadwch Gymru'n Daclus | Prentisiaethau Trwsio |
| Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Cynnig swydd i rai sy'n gadael yr ysgol gan annog sefydliadau ym mhob sector i gofrestru a chymryd un sydd newydd adael yr ysgol o dan eu hadain fel rhan o raglen sgiliau cyfannol ledled Cymru, gyda chymorth ariannol gan Twf Swyddi Cymru. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Sgiliau ar gyfer Adferiad Gwyrdd |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Llwybr carlam ar gyfer Rhaglen Marchnad Werdd CNC |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Defnyddio Cyllid Cyfunol i helpu i gyflawni'r Adferiad Gwyrdd |
| WWF Cymru | Datblygu a Defnyddio Mecanweithiau Ariannu Newydd |

Bydd cyfanswm o 5 cynnig blaenoriaeth dau hefyd yn cael cymorth i fireinio a datblygu eu syniadau ymhellach.

## Cydweithio i sbarduno arloesedd

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â nifer o gamau gweithredu i hwyluso'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r adferiad gwyrdd. Gan ddefnyddio eu pŵer cynnull byddant yn ymgysylltu ag eraill, gan gynnwys y rhai o'r sector preifat, i ysgogi trafodaeth a sbarduno gweithredu.

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i chwalu seilos a ffyrdd o weithio traddodiadol, i adeiladu ar y momentwm a grëwyd drwy’r ymateb i Covid-19, ac i gydweithio’n greadigol i ddatblygu dulliau a modelau cyflwyno newydd i gyflawni nodau ac amcanion.

Tabl 4: Camau eraill y bydd y Bartneriaeth Cyflawni ar gyfer Adfer Gwyrdd yn eu cymryd i alluogi cyflawni:

| Pennod | Camau eraill y bydd Partneriaeth Cyflawni'r Adferiad Gwyrdd yn eu cymryd i alluogi cyflawni |
|---|---|
| 4 | Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnull cynhadledd cyd-ddylunio gyda'r sefydliadau sector cyhoeddus fel Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a Phartneriaethau Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Awdurdodau Lleol a CNC sy'n berchen ar neu'n rheoli tir, ynghyd â sefydliadau trydydd sector, megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaethau Natur, i adeiladu agenda a rennir ar gyfer gweithredu ar gyfer adfer natur ar y tir y maent yn berchen arno ac yn ei reoli’n uniongyrchol. |
| 4 | Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gweithio gyda grwpiau ffermio, y rhannau hynny o'r sector cyhoeddus sy'n berchen ar sefydliadau tir a sefydliadau trydydd sector i archwilio modelau ariannu amgen i gyflymu buddsoddiad yn y maes hwn (adfer mawndiroedd). |
| 4 | Bydd y Grŵp yn archwilio modelau cyflawni amgen gan ei bod yn hanfodol ein bod yn adeiladu ar y brwdfrydedd hwn ac yn manteisio arno (ar gyfer plannu coed). |
| 4 | Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn bod angen gwneud mwy o waith i nodi'r mecanwaith mwyaf priodol i gefnogi'r gwaith o ddarparu (carbon glas) ac mae wedi ymrwymo i weithio gyda grŵp Cynghori Gweithredu Morol Cymru i gyflawni hyn. |
| 4 | Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn credu ei bod yn hanfodol bod cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu i fusnesau bach a chanolig a chontractwyr bach i'w galluogi i fanteisio ar gyfleoedd yr Atebion sy’n Seiliedig ar Natur. Bydd y Grŵp yn gweithio gyda sefydliadau fel Canolfan Gydweithredol Cymru a Busnes yn y Gymuned i nodi pa fath o raglenni cymorth y gellir eu datblygu. |
| 4 | Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn dwyn ynghyd y cyrff ariannu sy'n gweithredu yng Nghymru i archwilio sut y gellir targedu cyllid i gefnogi buddsoddiad mewn Atebion Sy'n Seiliedig ar Natur drwy feithrin diwylliant o gydweithio. |
| 5 | Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi beth, os o gwbl, y gellir ei wneud i gefnogi ehangu rhandiroedd ledled Cymru |
| 5 | Bydd y Grŵp yn comisiynu adolygiad i nodi ffyrdd mwy effeithiol o drosglwyddo tir sy'n eiddo cyhoeddus neu dir a reolir i ddwylo grwpiau cymunedol, yn cynnwys asesiad o'r risgiau a'r cyfleoedd i sefydliadau'r sector cyhoeddus a grwpiau cymunedol. |
| 5 | Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod mai dim ond os yw'r seilwaith cywir ar waith yn lleol y gall cysylltu tyfwyr bwyd â marchnadoedd lleol weithio. Mynd i'r afael â'r bwlch hwn yw'r allwedd i alluogi llawer o ffermwyr a thyfwyr ledled Cymru i arallgyfeirio eu modelau busnes. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, dan arweiniad y |

| | |
|---|---|
| | Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad, yn cynnal gweithdy i ystyried y ffordd orau o alluogi hyn. |
| 5 | Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gweithio gyda Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG) i archwilio'r gwaith o gynllunio a darparu 'Cronfa Arfordirol Twf Glas' a allai gefnogi ymgysylltu â chymunedau arfordirol i nodi, cynllunio a chyflawni prosiectau integredig sy'n mynd i'r afael â chyfleoedd lleol i sicrhau manteision lluosog. |
| 5 | Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn dwyn ynghyd ddylunwyr, penseiri tirwedd a chynllunwyr trefi sy'n gweithredu yng Nghymru i sicrhau bod y cynigion a gawsom yn llywio buddsoddiad mewn ardaloedd trefol ledled Cymru yn y dyfodol. |
| 5 | Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cyfarfod â Trafnidiaeth Cymru i drafod y cynigion hyn (teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy) a'r cyfleoedd i'w cynnwys yn eu cynlluniau wrth symud ymlaen. |
| 5 | O ystyried y gostyngiad sylweddol ym mhris gwlân a gynhyrchir gan ffermwyr Cymru, mae gwir angen creu marchnadoedd newydd ar gyfer y cynnyrch hwn. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn credu bod potensial gwirioneddol i edrych ar fecanwaith Cronfa Her i sbarduno arloesedd yn y maes hwn, i greu defnyddiau a marchnadoedd newydd ar gyfer y cynnyrch hwn sy’n gonglfaen i ffermio yng Nghymru. |
| 5 | Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi archwilio modelau ariannu amgen ar gyfer datblygu Llwybr Arfordir Cymru. Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad y syniad hwn, a bydd yn ceisio cynnwys Trafnidiaeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol i drafod y cyfleoedd posibl. |
| 5 | Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gweithio gyda Croeso Cymru a'r grwpiau twristiaeth rhanbarthol, i archwilio'r cyfle i ddatblygu'r cynnig twristiaeth natur a threftadaeth a sut y gellir gwella amgylchedd Cymru fel elfen ganolog o'n cynnig twristiaeth rhyngwladol. |
| 6 | Mae gwaith sy'n mynd rhagddo gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn ystyried y sgiliau sydd eu hangen i fodloni'r swyddi adferiad gwyrdd hyn yn y dyfodol. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn defnyddio hyn i lywio'r gwaith o ddatblygu fframwaith monitro a gwerthuso adferiad gwyrdd. |
| 6 | Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ymrwymo i weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i ystyried pa gamau y mae angen eu cymryd i gefnogi datblygu sgiliau, yn enwedig mewn perthynas ag Atebion sy'n Seiliedig ar Natur. |
| 6 | Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn credu bod angen amlwg i ysgogi'r sector addysg bellach i ddiweddaru cyrsiau presennol a datblygu rhai newydd i sicrhau bod gennym weithlu â'r sgiliau priodol ar gyfer y dyfodol. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gweithio gyda'r Cynghorau Sgiliau a'r Sector Colegau Trydyddol i archwilio cyfleoedd. |
| 6 | Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi ymrwymo i ymgysylltu â busnesau preifat a'r sector gwasanaethau ariannol i ystyried ffyrdd amgen o ddenu buddsoddiad i gefnogi'r adferiad gwyrdd. |

# 1.Cyflwyniad

Ym mis Mai 2020, gwahoddwyd Syr David Henshaw, Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru, gan Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, i arwain Grŵp Gorchwyl a Gorffen (y Grŵp) i:

- nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu i Gynllun Adfer Llywodraeth Cymru yn sgil Covid-19. Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, y Prif Weinidog a Chabinet Llywodraeth Cymru wedi datgan yn gyhoeddus eu hymrwymiad i'r ffaith bod yn rhaid i Gynllun Adfer Cymru gyflawni ar gyfer yr amgylchedd yn ogystal â'r economi a bod â chyfiawnder cymdeithasol fel egwyddor ganllaw.
- datblygu cynllun cyffredin i sefydlogi'r trydydd sector amgylcheddol, gan dynnu sylw at yr angen i gryfhau cadernid ariannol, llywodraethu ac ymgysylltu cymunedol.

Bydd y Grŵp yn adrodd yn ôl i Gyfarfod Bord Gron y Gweinidog, sy'n cynnwys cynrychiolwyr uwch o'r sectorau bwyd, ffermio a physgodfeydd ochr yn ochr â sefydliadau trydydd sector amgylcheddol a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Paratowyd dau adroddiad yn cyflwyno'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a'r camau nesaf:

## Mae adroddiad un yn canolbwyntio ar yr adferiad gwyrdd.

Nodir y diffiniad o "adferiad gwyrdd" a gytunwyd gan y Grŵp ynghyd â'r dull o nodi a blaenoriaethu camau gweithredu. Mae'r adroddiad yn nodi amrywiaeth o gamau ymarferol wedi'u blaenoriaethu, yn seiliedig ar 'alwad am syniadau', sy'n barod i gael eu datblygu yn y byrdymor a'r tymor canolog ar lefelau Cymru gyfan, rhanbarthol a lleol. Er ei fod wedi'i fframio yn y cyd-destun polisi strategol presennol, mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar gyflymu'r ddarpariaeth ar lawr gwlad. Ni fydd gwelliannau fesul cam yn ddigon i ymateb i faint her yr adferiad gwyrdd. Mae arloesi a ffurfio partneriaethau newydd sy'n cefnogi newid trawsnewidiol yn allweddol gan nad yw dychwelyd i ffyrdd 'arferol' o weithio yn opsiwn. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cyflwyno eu hymrwymiad ar y cyd i ysgogi'r ddarpariaeth yn y bennod olaf.

## Mae adroddiad dau yn canolbwyntio ar argymhellion gwaith ymchwil i lywio datblygiad cynllun i sefydlogi'r trydydd sector amgylcheddol.

Ymgynghorydd annibynnol sydd wedi gwneud y gwaith hwn, gan fanteisio ar adolygiadau llenyddiaeth desg, gweithdy, cyfweliadau wyneb yn wyneb ac arolwg ar-lein. Gan fanteisio ar y ffynonellau gwybodaeth hyn, mae'r adroddiad yn asesu sefyllfa sefydliadau trydydd sector cyn Covid-19, drwy'r cyfnod ymateb i'r cyfyngiadau symud ac yn edrych ymlaen drwy'r hydref hyd at fis Ionawr 2021. Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion.

# 2. Camau ymarferol wedi'u blaenoriaethu ar gyfer yr adferiad gwyrdd

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y camau ymarferol a flaenoriaethwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac fe'i rhennir yn saith pennod.

Mae Pennod 2 yn nodi'r diffiniad o adferiad gwyrdd a gytunwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, yr amcanion strategol a'r dull o sicrhau a blaenoriaethu cynigion. Mae Pennod 3 yn cynnig crynodeb o'r nifer o gyflwyniadau a dderbyniwyd, wedi'u rhannu i'r gwahanol elfennau a nodir yn y diffiniad o adferiad gwyrdd.

Yna, mae'r adroddiad yn asesu ac yn blaenoriaethu cynigion mewn tair pennod. Mae Pennod 4 yn canolbwyntio at Atebion yn Seiliedig ar Natur a'r amrywiaeth o gynigion ymarferol sy'n darparu ar gyfer yr argyfyngau natur a hinsawdd. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod bod y cynigion hyn yn ganolog i'r adferiad gwyrdd. Mae Pennod 5 yn symud ymlaen i ystyried cynigion sy'n ymwneud â'r systemau economaidd-gymdeithasol sy'n ysgogi economi Cymru. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod bod newid y systemau hyn yn hanfodol i ddatrys yr argyfyngau natur a hinsawdd trwy gyflymu'r newid i lwybr mwy cynaliadwy. Mae Pennod 6 yn canolbwyntio ar y camau galluogi hynny sy'n allweddol i hwyluso manteision economaidd-gymdeithasol ehangach yr adferiad gwyrdd ac yn cynnwys pwyslais ar sgiliau, lleoliadau a swyddi a swyddogaeth dulliau ariannol amgen i ysgogi buddsoddiad yn y dyfodol. Mae Pennod 7 yn nodi'r camau nesaf a gytunwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

## Adferiad gwyrdd – Diffinio'r hyn yr ydym yn ei olygu

Mae ein hymateb cyfunol i bandemig Covid-19 yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ailbennu ein gwerthoedd a'n blaenoriaethau unigol a chyfunol, gan eu hadalinio â'r rhai sydd eu hangen i greu dyfodol mwy cynaliadwy. Y consensws ledled Cymru, y DU, Ewrop a'r tu hwnt yw bod yn rhaid i adferiad yn sgil Covid-19 fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd sylfaenol. Mae llu o bapurau a blogiau (er enghraifft, Sefydliad Ellen MacArthur 2020;[2] RSPB 2020;[3] Coed Cadw (Woodland Trust) 2020;[4] TUC Cymru 2020;[5] Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop 2020;[6] y Cenhedloedd Unedig 2020[7]) yn nodi'r rheidrwydd i unigolion, busnesau, llywodraethau a sefydliadau byd-eang ailganolbwyntio a chyflymu ein hymateb i'r pandemig ar lwybr sy'n adfer natur **ac** yn datgarboneiddio ein heconomi. Mae'r dull integredig hwn yn ystyried natur a hinsawdd gyda'i gilydd fel sail adnewyddiad ac adfywiad economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol yng Nghymru. I adlewyrchu'r safbwynt eang hwn, cytunodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar ddiffiniad o adferiad gwyrdd sy'n berthnasol i'r amrywiaeth o ecosystemau ar y tir a'r môr:

---

[2] https://www.ellenmacarthurfoundation.org/our-work/activities/covid-19
[3] https://www.rspb.org.uk/about-the-rspb/about-us/media-centre/press-releases/green-recovery/
[4] https://www.woodlandtrust.org.uk/blog/2020/06/campaigns-update/
[5] https://www.tuc.org.uk/research-analysis/reports/job-creation-wales-infrastructure-investment?lang=cy
[6] https://www.eea.europa.eu/highlights/new-debate-series-by-eea
[7] https://www.un.org/en/un-coronavirus-communications-team/un-urges-countries-%E2%80%98build-back-better%E2%80%99

## Camau ymarferol wedi'u blaenoriaethy sy'n:

- Lleihau allyriadau carbon ac yn cynyddu cydnerthedd yn erbyn effeithiau'r newid yn yr hinsawdd
- Gwrthdroi'r dirywiad i fioamrywiaeth
- Cysylltu pobl a natur
- Mynd i'r afael â lefelau anghynaliadwy o gynhyrchiant a defnydd trwy gadw adnoddau mewn defnydd am gyhyd â phosibl, gan osgoi pob math o wastraff a symud i ddewisiadau eraill mwy cynaliadwy.

## Wrth fwrw ymlaen â'r camau hyn, targedu buddsoddiad i sicrhau:

- Bod creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd yn cael eu blaenoriaethu
- Bod grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / wedi cael eu taro galetaf yn cael eu blaenoriaethu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac annhegwch economaidd-gymdeithasol sylfaenol.

Mae'n rhaid i'r cynllun adfer gyflawni yng nghyswllt **pob un o'r chwe** elfen hyn, nid un ar ei ben ei hun yn unig. Fodd bynnag, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod y gallai fod mwy o bwyslais ar rai elfennau o'u cymharu ag eraill a chytunodd i egwyddor o 'wneud dim niwed' – er enghraifft, ni ddylai camau ar ddatgarboneiddio fod ar draul bioamrywiaeth. Mae'r pwyslais hwn ar integreiddio, gan ysgogi camau gweithredu sy'n cyflawni ar gyfer yr hinsawdd, natur ac economi gylchol â manteision lluosog i gymunedau a'r economi, yn ganolog i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Amcanion strategol

Mae Cymru mewn sefyllfa dda i ymateb i her adferiad gwyrdd. Diwygiwyd y fframwaith deddfwriaethol a pholisi strategol dros y deng mlynedd ddiwethaf. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn darparu'r cyfeiriad strategol a'r dulliau sy'n ymgorffori datblygu cynaliadwy wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau ar draws y sector cyhoeddus. Diwygiwyd llawer o fframweithiau polisi strategol gan y llywodraeth, ar ôl cyhoeddi, er enghraifft, y Polisi Adnoddau Naturiol (2018);[8] Strategaeth Coetiroedd i Gymru (2018);[9] Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019);[10] Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019);[11] Tuag at Ddyfodol Diwastraff (2019).[12] Gyda'n cyd-destun deddfwriaeth a pholisi strategol unigryw, mae gan Gymru y dulliau ar gael i fwrw ymlaen â chynllun adfer gwyrdd uchelgeisiol.

---

[8] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/polisi-adnoddau-naturiol-cenedlaethol.pdf
[9] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-06/coetiroedd-i-gymru-strategaeth.pdf
[10] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cynllun-cyflawni-carbon-isel-cy_0.pdf
[11] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-dogfen-mawr.pdf
[12] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/tuag-at-ddyfodol-diwastraff-ein-strategaeth-wastraff.pdf

Mae llawer o sefydliadau ar lefelau Cymru, y DU ac Ewrop wedi manteisio ar y cyfle i ddiffinio egwyddorion ac elfennau cynllun adfer gwyrdd, gan adlewyrchu eu hamcanion a'u buddiannau strategol penodol. Diffiniodd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ei bum prawf ar gyfer adferiad gwyrdd ym mis Mehefin 2020,[13] a nododd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru bum blaenoriaeth i ailosod economi Cymru mewn ymateb i Covid-19[14] ym mis Mai. Mae'r dogfennau hyn yn diffinio'r uchelgais a chyfle strategol ac fe'u hailadroddir yn egwyddorion, blaenoriaethau a datganiadau sefyllfa'r adferiad gwyrdd a gyhoeddwyd gan lawer o sefydliadau yng Nghymru. Dyma'r ffrydiau cyffredin:

- **Rhaglenni ailsgilio ac ailhyfforddi**, rhoi'r sgiliau priodol i bobl ar gyfer swyddi'r dyfodol, er enghraifft ynni adnewyddadwy, rhaglenni ôl-osod tai, plannu coed, adfer mawndir, seilwaith gwyrdd a darparu mynediad.

- **Atgyfnerthu'r ymddygiadau cadarnhaol a fabwysiadwyd gan bobl yn ystod y cyfyngiadau symud**, trwy fuddsoddiad mewn seilwaith i hwyluso, er enghraifft, gweithio o bell, mannau gwyrdd ar gyfer beicio a cherdded a lleihau gwastraff bwyd.
- **Ailgysylltu pobl a natur,** un o'r themâu cyson a adroddwyd yn y cyfryngau yn ystod y cyfyngiadau symud oedd sut mae gwerthfawrogi a rhyngweithio â natur a bod ynddi wedi helpu llesiant pobl ac arwain iddynt ei gwerthfawrogi mwy.
- **Cyfleoedd twristiaeth natur a bywyd gwyllt,** yn gysylltiedig â mwy o ddiddordeb mewn natur a'r amgylchedd.
- **Gwneud mannau gwyrdd o ansawdd yn fwy hygyrch a bioamrywiol, yn enwedig mewn cymunedau trefol difreintiedig,** oherwydd y cyfraniad sylweddol y mae bod mewn natur yn ei wneud at iechyd a llesiant corfforol a meddyliol unigolion**.**
- **Ôl-osod carbon isel mewn tai ac adeiladau cyhoeddus**
- **Lleihau peryglon amgylcheddol trwy Atebion Seiliedig ar Natur**, fel ehangu gorchudd coed, adfer mawndir, adfer glaswellt y môr ac adfer afonydd yn ogystal â phwyslais ar **gynyddu cydnerthedd** bioamrywiaeth ar y tir ac ar y môr.
- **Cynyddu cydnerthedd system fwyd Cymru a thyfu bwyd yn lleol**
- **Datblygu modelau a dulliau ariannol amgen i gymell buddsoddiad yn yr adferiad gwyrdd.**

Fodd bynnag, mae symud o'r fframwaith polisi strategol i gyflawni newid ystyrlon ar lawr gwlad yn dal i fod yn anodd. Mae goresgyn y 'bwlch darparu' hwn a chyflymu camau ymarferol yn hanfodol i lwyddiant adferiad gwyrdd yng Nghymru.

Dod o hyd i ffyrdd o 'wneud i bethau ddigwydd' fu mantra'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Mae'r Grŵp yn unedig yn ei uchelgais i gyflymu'r ddarpariaeth o'r pethau hynny y gwyddom sy'n gweithio, gan hefyd annog a hwyluso syniadau arloesol a chreadigol. Cydnabuwyd gan y Grŵp werth a phwysigrwydd creu'r lle i alluogi mentrau strategol ar raddfa ranbarthol neu Gymru gyfan yn ogystal ag arddangoswyr graddfa fach sy'n cynnig y

[13] https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/Reducing-UK-emissions-Progress-Report-to-Parliament-Committee-on-Cli.._-002-1.pdf
[14] https://www.futuregenerations.wales/cy/resources_posts/rhaid-i-gyllideb-llywodraeth-cymru-nodi-newid-cyfeiriad-i-ailosod-ein-heconomi/

potensial o weithrediad ehangach. Yn unol â'r diben cyffredin hwn, cytunodd y grŵp ar bum amcan strategol ar gyfer ei waith:

- Ysgogi camau integredig sy'n rhoi sylw i chwe dimensiwn adferiad gwyrdd, nid yn canolbwyntio ar ddimensiynau unigol ar wahân.
- Annog a hwyluso gweithio ar y cyd ar raddfa gymunedol, sector, ranbarthol neu Gymru gyfan, â phwyslais ar gyfranogiad ystyrlon, gan osgoi mentrau o'r brig i lawr.
- Ymrwymo'r egni a'r adnoddau i'r pethau hynny yr ydym wedi eu dysgu trwy brofiad Covid-19 yr ydym eisiau gwneud mwy ohonynt, gan roi'r gorau i bethau eraill i greu lle.
- Defnyddio'r dulliau deddfwriaethol a pholisi presennol i ysgogi newid, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddiwygio graddfa eang o ddeddfwriaeth neu bolisi. Er y gallai fod angen newidiadau deddfwriaethol a pholisi i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur mewn modd sy'n gyfiawn yn gymdeithasol, nid dyma oedd prif bwyslais y Grŵp.
- Cydnabod y newidiadau i bolisi amaethyddol a physgodfeydd sydd ar y gweill o ganlyniad i ymadael â'r UE a cheisio creu cyfleoedd drwy'r adferiad gwyrdd i gyflymu a phrofi syniadau newydd i gynyddu cydnerthedd y sectorau hyn a'r system fwyd ehangach.

## Ein dull o sicrhau syniadau da a'u blaenoriaethu

Yn ganolog i ddull y Grŵp oedd dymuniad i ymgysylltu a chynnwys cymaint o wahanol bobl a sefydliadau â phosibl o fewn cyfnod amser byr iawn, gan geisio eu syniadau neu gynigion ymarferol a allai ein galluogi ni fel gwlad i ymateb yn effeithiol i bandemig Covid-19 ac ysgogi adferiad gwyrdd. Gallai ymatebion effeithiol gynnwys datblygu mentrau neu brosiectau presennol yn ogystal â chreu syniadau newydd i'w profi fel arddangoswyr.

Gwnaeth y Grŵp alwad am syniadau, gan ddefnyddio llythyr, cyflwyniad cryno a ffurflen syml (gweler Atodiad 1) a rannwyd trwy wahanol rwydweithiau'r Grŵp ganol mis Gorffennaf. Yn gyfochrog â hyn, trwy ddatganiadau i'r wasg a gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol, cododd Cyfoeth Naturiol Cymru ymwybyddiaeth o'r cyfle yn fwy cyffredinol, gan gyfarwyddo pobl i gynnig syniadau ar y Porth Lle Dinasyddion ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn diwedd mis Awst.

Ac eithrio'r llyw a gyflwynwyd yn y 'cyflwyniad cryno', ni wnaeth y Grŵp ragnodi themâu neu bynciau penodol i lywio neu dargedu cyflwyniadau, gan adael tudalen wag i unigolion neu grwpiau gyflwyno eu syniadau.

Derbyniwyd cyfanswm o 168 o gyflwyniadau erbyn 1 Medi, gan groestoriad o unigolion, grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol, cymdeithasau tai, elusennau, cyrff cyhoeddus, cwmnïau preifat, Parciau Cenedlaethol a grwpiau amgylcheddol. Roedd y syniadau yn

amrywio o micro-brosiectau mewn tref neu bentref, i fentrau ar draws un neu fwy o ffiniau awdurdod lleol i gynigion ar raddfa Cymru gyfan.

Grwpiwyd cynigion yn themâu ac fe'u rhannwyd gydag aelodau'r Grŵp, gan hysbysu trafodaeth a arweiniodd yn y pen draw at gytuno ar gyfres o feini prawf asesu a blaenoriaethu eang (gweler Tabl 1).

Tabl 5: Meini Prawf Asesu a Blaenoriaethu

| **Derbyn – yn cyd-fynd â'r amcan strategol** | **Efallai – angen rhagor o waith** | **Gwrthod** |
|---|---|---|
| Dichonol<br>Ymarferol<br>Effeithiol<br>Mae'r cynnig yn strategol neu ficro/cymunedol â photensial i dyfu<br>Yn darparu yn erbyn dimensiynau lluosog adferiad gwyrdd<br>Yn bodloni prawf gwneud dim niwed<br>Gallai ddarparu dros y 12-18 mis nesaf<br>Tyfu mentrau/ prosiectau presennol<br>Syniadau arbrofol ar gyfer profi a darganfod | Syniadau da i adeiladu arnynt, efallai?<br>Rydym yn hoffi elfennau o'r cynnig, ond nid y cwbl<br>Bylchau yn y dull yn gysylltiedig â rhyw ddimensiwn o'r diffiniad o adferiad gwyrdd (cymdeithasol yn erbyn bioamrywiaeth ac ati)<br>Yn bodloni'r prawf gwneud dim niwed<br>Os yn y categori hwn, yna mwy o amser i archwilio a thrafod yn y panel ac efallai cynnig:<br>• Dod â phobl at ei gilydd<br>• Darparu arbenigedd ychwanegol<br>• Darparu Rheolaeth Prosiect | Syniad da, ond mae'r cyrhaeddiad/effaith yn isel<br>Ddim yn ddichonol<br>Angen newidiadau sylweddol i bolisi LIC neu'r DU<br>Nid yw'n bodloni dimensiynau lluosog y diffiniad o adferiad gwyrdd<br>Nid yw'n bodloni'r egwyddor gwneud dim niwed |

# 3. Yr hyn a ddywedasoch wrthym – Syniadau da ar gyfer adferiad gwyrdd Cymru

Ar y cyfan, mae ystod y syniadau a gyflwynwyd yn ffynhonnell o obaith, gan adlewyrchu angerdd, egni ac ymrwymiad llawer o bobl, grwpiau a sefydliadau ledled Cymru i fanteisio ar gyfle'r adferiad gwyrdd. Mae asesiad syml o brif bwyslais y 168 o gyflwyniadau yn erbyn chwe dimensiwn yr adferiad gwyrdd yn dangos:

- 45 yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon a chynyddu cydnerthedd yn erbyn effeithiau'r newid yn yr hinsawdd
- 47 yn cyfrannu at wrthdroi'r dirywiad i fioamrywiaeth
- 49 yn cysylltu â phobl a natur
- 27 yn cyfrannu at fynd i'r afael â lefelau anghynaliadwy o gynhyrchiant a defnydd trwy gadw adnoddau mewn defnydd am gyhyd â phosibl, gan osgoi pob math o wastraff a symud i ddewisiadau eraill mwy cynaliadwy

Mae mwyafrif y cyflwyniadau yn gwneud cysylltiad â chefnogi camau i greu swyddi a datblygu sgiliau.

Mae rhai o'r cyflwyniadau yn ymhelaethu ar sut y mae'r syniad da yn adlewyrchiad o gyfranogiad ac ymgysylltiad â chymunedau neu grwpiau sector, ac yn adeiladu ar y cyfranogiad ac ymgysylltiad hyn. Mae llawer mwy yn cyflwyno sut y maent yn bwriadu gwneud hyn wrth symud ymlaen.

Cymharol brin oedd y cynigion a ddatblygwyd gan gymunedau neu grwpiau o rai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd mwy trefol. Y cymunedau hyn, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, sydd wedi cael eu taro waethaf gan Covid-19 ac maent yn arbennig o agored i effeithiau anghyfartal diweithdra cynyddol sy'n debygol o ddigwydd dros y gaeaf a thu hwnt. Mae hwn yn fwlch sylweddol y mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ei gydnabod ac y bydd yn ei ailystyried wrth i ni symud i'r camau darparu.

Mae'r darlun o ardaloedd gwledig, lle ceir gweithgarwch mwy cymunedol yn aml, yn wahanol.[15] Er na chafwyd unrhyw gyflwyniadau gan ffermwyr â busnesau amaethyddol traddodiadol, derbyniwyd nifer o gynigion gennym gan drefi llai / ardaloedd gwledig a fydd o fudd i gymunedau lle mae incymau isel yn gyffredin ac sydd â llawer o swyddi mewn sectorau agored i niwed. Mae'r lefel uwch hon o gynigion hefyd yn adlewyrchu eu mynediad at rwydweithiau lleol cefnogol ac, ar lefel ymarferol, yr arwynebedd tir mwy sydd ar gael.

[15] Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau, i'w gyhoeddi: Mapio Asedau Cymunedol yng Nghymru

## Lleihau allyriadau carbon a chynyddu cydnerthedd yn erbyn effeithiau’r newid yn yr hinsawdd

Mae llawer o’r cynigion wedi’u fframio â phwyslais cul iawn ar ddatgarboneiddio, heb ystyried yn eglur y manteision ehangach i adferiad natur, yr economi gylchol neu welliannau i lesiant corfforol a meddyliol. Serch hynny, gydag ychydig yn fwy o waith, ceir gwerth gwirioneddol i lawer o’r cynigion ac maent yn adlewyrchu’r camau sydd wedi’u hen sefydlu a gynigiwyd ym Mhwyllgor ar Newid Hinsawdd y DU.

Ceir nifer o gynigion cryf yn gysylltiedig ag effeithlonrwydd ynni ac ôl-osod yn y sector tai cymdeithasol, sy’n adlewyrchu dulliau a brofwyd yn drylwyr â chyfranogiad cymunedol cryf yn cynnig cyfleoedd mawr o ran swyddi a datblygiad sgiliau. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid yw manteision ehangach posibl i fioamrywiaeth a’r economi gylchol yn cael eu hystyried yn eglur nac yn drylwyr o gwbl yn y cynigion hyn.

Ceir nifer o awgrymiadau teithio llesol, sy’n ymestyn llwybrau cerdded a beicio rhwng cymunedau, yn ogystal â chynigion sy’n ehangu’r rhwydwaith Gwefru Trydan ar draws Cymru wledig. Ceir cyfleoedd sylweddol i fynd i’r afael â’r seilwaith trafnidiaeth ym Mharc Cenedlaethol Eryri, sydd i’w croesawu’n fawr.

Mae Atebion ar Sail Natur yn ymddangos mewn nifer o gynigion, â phwyslais cryf iawn ar blannu coed a gwelliannau i garbon glas (cynefinoedd glaswellt y môr a rhynglanwol) yn yr amgylchedd morol.

Mae datblygu ynni adnewyddadwy yn amlwg yn elfen hanfodol o ddatgarboneiddio ein heconomi a bydd yn effeithio ar sut yr ydym yn defnyddio’r amgylcheddau tir a morol o gwmpas Cymru. Ni dderbyniwyd unrhyw gynigion yn ymwneud â datblygu ynni adnewyddadwy, ond derbyniwyd nifer o gynigion yn ymwneud ag ehangu a/neu wella rhwydweithiau cyngor presennol a datblygu dulliau ariannu a modelau darparu newydd.

## Gwrthdroi’r dirywiad i fioamrywiaeth a chysylltu pobl a natur

Mae’r rhan fwyaf o’r cynigion yn canolbwyntio ar gysylltu pobl a natur, trwy fannau gwyrdd. Mae mynediad anghyfartal at fannau gwyrdd wedi cael ei amlygu gan y pandemig; nid oes gan un o bob wyth aelwyd unrhyw fynediad at ardd ac nid oes gan lawer fynediad rhwydd at barciau a mannau gwyrdd lleol. Mae buddsoddiad mewn mannau gwyrdd yn fecanwaith i ailadeiladu ein cymunedau, i gefnogi eu hiechyd a’u llesiant corfforol a meddyliol, a’i hailgysylltu â’i gilydd a chyda natur.

Ceir amrywiaeth o gynigion sy’n ymwneud â throi mannau gwyrdd sydd wedi’u hesgeuluso yn fannau tyfu bwyd, yn berllannau cymunedol, yn erddi peillwyr ac yn fannau coetir cymunedol yn ogystal â phlannu gwrychoedd a mannau blodau gwyllt.
Adlewyrchir pwysigrwydd mynediad at fannau gwyrdd mewn ardaloedd trefol mewn cynigion ar gyfer datblygu parciau a rhandiroedd newydd yn ogystal â gwella ansawdd mannau gwyrdd presennol. Wrth (ail)ddylunio’r mannau hyn, mae’r Grŵp o’r farn ei bod yn hanfodol bwysig ystyried sut y mae’r mannau hyn yn galluogi ac yn hwyluso rhyngweithio a chydlyniant cymunedol.

## Cyfrannu at fynd i'r afael â lefelau anghynaliadwy o gynhyrchiant a defnydd trwy gadw adnoddau mewn defnydd am gyhyd â phosibl, gan osgoi pob math o wastraff a symud i ddewisiadau eraill mwy cynaliadwy

Mae llawer o gynigion yn gwneud cyfraniad uniongyrchol ac anuniongyrchol at y dimensiwn hwn o'r adferiad gwyrdd. Ceir cynigion mewn Atebion ar Sail Natur i gyfnewid pren o Gymru wrth adeiladu tai, lleihau'r defnydd o sment a chloi carbon mewn pren. Ceir cynnig hefyd i ystyried defnyddio gwlân defaid fel deunydd inswleiddio mewn adeiladau.

Ceir cynigion yn y system fwyd i leihau'r defnydd o fewnbynnau amaeth-gemegol, yn ogystal â symud i rwydweithiau cyflenwi mwy lleol i leihau'r costau dosbarthiad trafnidiaeth. Ceir llond llaw o gynigion sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ehangu'r cysyniad siop drwsio ledled Cymru, gan gynnwys datblygu cynllun prentisiaeth wedi'i deilwra. Ceir cynigion yn ymwneud â chewynnau y gellir eu hailddefnyddio hefyd.

## Blaenoriaethu creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd

Ceir potensial eglur i greu swyddi a datblygu sgiliau yn ymwneud â'r adferiad gwyrdd, gyda llawer o sefydliadau yng Nghymru[16] a'r DU[17] yn nodi'r cyfle i gyflogaeth hynod fedrus a hirdymor. Mae llawer o gynigion yn tynnu sylw at y cyfraniad at swyddi a datblygu sgiliau. Ceir cynigion penodol hefyd yn ymwneud â datblygu Gwasanaeth Natur Cymru a chynlluniau prentisiaeth sy'n targedu gwasanaethau trwsio yn unol ag egwyddorion yr economi gylchol.

Mae'n bwysig bod unrhyw swyddi neu raglenni datblygu sgiliau'r adferiad gwyrdd yn cyd-fynd â'r ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb a nodir gan TUC Cymru.[18]

Yn yr ysbryd hwn, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi nodi nifer o egwyddorion canllaw:

- **Telerau ac amodau da**

  Dylai prosiectau gynnig telerau ac amodau da, gan gynnwys:
  - Telir y Cyflog Byw gwirioneddol o leiaf i weithwyr.
  - Cynigir yr opsiwn o weithio hyblyg i weithwyr.
  - Mae gweithwyr yn ddiogel yn eu swyddi.
  - Mae cyflogwyr yn cydnabod ac yn cynnwys undebau llafur.

- **Cyfleoedd hygyrch ar gyfer amrywiaeth o sgiliau**

  Dylai prosiectau annog amrywiaeth wrth recriwtio trwy:

[16] TUC, 'Adferiad gwyrdd a thrawsnewidiad cyfiawn', 2020
[17] https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/Reducing-UK-emissions-Progress-Report-to-Parliament-Committee-on-Cli.._-002-1.pdf
[18] TUC, 'Adferiad gwyrdd a thrawsnewidiad cyfiawn', 2020

- Sicrhau bod manylebau swydd y lleiaf sy'n angenrheidiol (e.e. peidiwch â gofyn am gymwysterau neu brofiad os nad ydynt yn hanfodol).
- Mabwysiadu arfer gorau wrth recriwtio (gan gynnwys dulliau hysbysebu ac asesu, e.e. defnyddio asesiad doniau yn hytrach na chyfweliadau neu geisiadau dienw).
- Creu llwybrau mynediad, er enghraifft trwy bartneriaethau gyda darparwyr dysgu lleol.
- Cynnig cyfnodau blas ar waith a chyfnodau prawf i ehangu gorwelion recriwtiaid posibl yn y dyfodol.

- **Cynnydd**

Dylai prosiectau sicrhau bod gweithwyr yn gallu dysgu a symud ymlaen i swyddi ar lefelau uwch. Dylent sicrhau:

- Y darperir hyfforddiant i bobl sy'n arwain yn ddelfrydol at gymwysterau achrededig.
- Y gall pobl ddilyn llwybrau cynnydd eglur i swyddi â chyflogau uwch yn y sefydliad neu mewn mannau eraill.
- Bod cyfleoedd i ddysgu a gwneud cynnydd ar gael i holl rannau'r gweithlu.

## Mae grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / wedi cael eu taro waethaf yn cael eu blaenoriaethu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau ac amddifadedd sylfaenol

Mae'r Prif Weinidog wedi bod yn eglur bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol yn ganolog i'r ymateb i'r pandemig a'r adferiad, ac y bydd yn gwneud hynny.[19]

Yn ystod y pandemig, mae'r tebygolrwydd o farw, o golli swyddi neu o syrthio ar ei hôl hi o ran addysg wedi cael ei bennu yn rhannol gan oedran, hil, rhywedd, anabledd, incwm a lleoliad.[20] Mae tlodi wedi bod yn benderfynydd allweddol yn y pandemig, a chafwyd cyfraddau marwolaeth uwch o coronafeirws ymhlith dynion, pobl hŷn, pobl o grwpiau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl â chyflyrau iechyd presennol, pobl anabl a phobl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd. Mae grwpiau penodol o weithwyr allweddol hefyd wedi cael eu taro yn ariannol drwy'r pandemig.[21]
Mae targedu camau gweithredu at y grwpiau, cymunedau a lleoedd hyn trwy adferiad gwyrdd sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol yn hollbwysig ac yn gofyn i ni ddod ag agendâu amgylcheddol a chyfiawnder cymdeithasol ynghyd yn gryfach nag erioed o'r blaen. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ystyried lle bydd cynigion yn cael eu targedu, gan ystyried:

[19] Ymateb y Gweinidog i Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd, Medi 2020
[20] Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd, Awst 2020, 'Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig'.
[21] Y Gymdeithas Frenhinol er hybu'r Celfyddydau, Gweithgynhyrchion a Masnach, 'All clapped out? Key workers living through lockdown', Awst 2020

- **Lleoliad a blaenoriaethau**

Mae lleoliad camau gweithredu yn siapio hygyrchedd ac addasrwydd. Er enghraifft, nid yw teithio llesol o reidrwydd yn ddull trafnidiaeth priodol mewn ardaloedd gwledig a lled-wledig lle nad yw'r pellteroedd i'w teithio yn ymarferol.

- Cydbwyso hygyrchedd ag adferiad natur (e.e. mae parciau trefol mor bwysig â mawnogydd, yn dibynnu ar ba un a yw'r manteision a geisir yn fan gwyrdd lleol neu'n cloi carbon i mewn).
- Pan fo'n bosibl, sicrhau bod amgylcheddau yn hygyrch i bawb, yn unol â chanllawiau "Trwy Bob Dull Rhesymol".[22]
- Ymgysylltu â chymunedau lleol i sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed.
- Cynnwys darpariaeth ar gyfer rheoli ac ôl-ofal hirdymor.

- **Cost mynediad**

Gall cost mynediad, gan gynnwys costau offer, fod yn rhwystr i bobl ymgysylltu â natur hefyd. Dylai prosiectau sicrhau felly:

- Eu bod yn cynnwys mynediad am ddim a/neu weithgareddau cost isel.
- Allgymorth i annog pobl efallai nad ydynt wedi cael profiad o weithgareddau natur i roi cynnig arnynt am ddim neu ar gost isel.
- Cyfleoedd ar gyfer dysgu lefel mynediad am yr amgylchedd naturiol.

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod bod cydweithredu ac ymgysylltu â gwybodaeth ddigonol gyda chymunedau yn hollbwysig, gan sicrhau bod pobl yn cael eu cynnwys i fynd i'r afael â'r materion sydd bwysicaf iddyn nhw yn lleol.
Mae'n hanfodol bod trigolion cymunedau Cymru sydd wedi cael eu taro waethaf gan effeithiau iechyd ac economaidd Covid-19 yn teimlo bod yr 'adferiad gwyrdd' yn gweithio iddyn nhw, gan wella eu bywoliaeth a'u hansawdd bywyd. Bydd hyn yn golygu bod cyfleoedd sy'n deillio o'n hargymhellion yn hygyrch i drigolion y cymunedau hyn a bod pobl leol yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am welliannau i'w hardaloedd.

[22] https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/684056/nc004-trwy-bob-dull-rhesymol-mynediad-lleiaf-rhwystrol-ir-awyr-agored.pdf

# 4. Atebion ar Sail Natur – conglfaen yr adferiad gwyrdd

Diben Atebion ar Sail Natur yw cymryd camau sydd wedi'u hysbrydoli a'u gwreiddio mewn cynyddu cydnerthedd natur. Mae'r atebion yn mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur ar yr un pryd, ac yn cynnig manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lluosog. Am y rheswm hwn, maent yn aml yn gosteffeithiol. Mae'r camau yn canolbwyntio ar amrywiaeth o ecosystemau ar y tir a'r môr, gan gynnwys:

- Gwella safleoedd gwarchodedig
- Adfer mawndir
- Adfer ac ehangu coetir a gwrychoedd
- Carbon glas[23] yn yr amgylchedd morol
- Adfer afonydd a gwlyptiroedd

Mae Atebion ar Sail Natur yn ganolog i Bolisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru[24] [25] a gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru ar Ddatganiadau Ardal.[26] Hyd yma, mae buddsoddiad wedi cael ei ysgogi trwy gyfres o raglenni grant wedi'u rhedeg gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles, rhaglenni Grant y Cynllun Rheoli Cynaliadwy a Glastir – Creu Coetir. Yn fwy diweddar, rhyddhawyd cyllid cyfalaf am flwyddyn gan Lywodraeth Cymru i'w ddosbarthu trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy wedi'i deilwra ar gyfer rhaglen safleoedd Natura 2000.

## Beth sydd angen digwydd – cyfleoedd i'r adferiad gwyrdd trwy Atebion ar Sail Natur

### Safleoedd Gwarchodedig

Er na dderbyniwyd unrhyw gynigion yn ymwneud yn benodol â gwelliannau yn y rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig yng Nghymru, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol cynnal yr ardaloedd hyn sy'n hollbwysig i fioamrywiaeth Cymru. Mae rhwydwaith sy'n cynnwys amrywiaeth eang o gynefinoedd ar y tir, yn y môr ac mewn afonydd yn gartref i rai o'r rhywogaethau mwyaf prin yng Nghymru, y DU ac Ewrop. Serch hynny, mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol [27] [28] a'r Adroddiad Sefyllfa

---

[23] Yn cynnwys cynefinoedd glaswellt y môr a morfeydd heli

[24] Y Polisi Adnoddau Naturiol, Llywodraeth Cymru, 2018

[25] Gweithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol: Ciplun, 2019

[26] https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/?lang=cy

[27] https://cdn.naturalresources.wales/media/682367/sonarr-summary-september-2016-welsh-edited-august-2017.pdf

[28] https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-natural-resources-interim-report-2019/?lang=cy

Byd Natur[29] yn tanlinellu eu cyflwr gwael. Mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o’r farn bod yn rhaid i adfer y safleoedd hyn a chynyddu eu cydnerthedd ecolegol fod yn ganolog i adferiad gwyrdd Cymru.

Mae adfer safleoedd yn aml yn gymhleth ac yn gofyn am gamau cydgysylltiedig rhwng nifer o unigolion a chwmnïau preifat, cyrff cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector sy’n berchen ar rannau o safle neu’n eu rheoli. Mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod y bydd y cynlluniau rheoli tir a physgodfeydd newydd yn chwarae rhan bwysig yn cymell camau gan unigolion i adfer y safleoedd hyn. Serch hynny, ni fydd y cynlluniau hyn yn cychwyn tan 2024.

Yn y cyfamser, mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o’r farn bod yn rhaid cyflymu camau trwy gydweithredu a datblygu partneriaethau. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio gyda grwpiau amgylcheddol trydydd sector sy’n berchen ar dir neu’n ei reoli i ddatblygu rhaglenni aml-flwyddyn ar gyfer gwelliant ar y safleoedd y maent yn berchen arnynt neu’n eu rheoli, gyda’r disgwyliad y byddant yn edrych y tu hwnt i’w ffiniau i weithio gyda chymdogion.

I adeiladu ar hyn, bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn trefnu cynhadledd cyd-ddylunio gyda’r sefydliadau sector cyhoeddus hynny fel Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol a Phartneriaethau Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru sy’n berchen ar dir neu’n ei reoli, a sefydliadau trydydd sector, fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a’r Ymddiriedolaethau Natur, i ddatblygu agenda ar y cyd ar gyfer gweithredu i adfer natur ar y tir y maent yn berchen arno ac yn ei reoli yn uniongyrchol.

## Adfer Mawndir

Mae mawndiroedd yn gyfres gyfoethog ac amrywiol o gynefinoedd ac yn adnodd naturiol pwysig ar gyfer dal a storio carbon a rheoli allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae 95% o’r carbon a ddelir yn ein hamgylchedd mewn priddoedd mawn.[30] Fodd bynnag, mae angen cymryd camau brys mewn amgylcheddau mawndir ledled Cymru i wrthdroi colled cynefin a chyflwr dirywiol. Gall mawndiroedd ddarparu’r ystod lawn o fanteision a gwasanaethau amgylcheddol nodweddiadol dim ond pan fyddant mewn cyflwr ecolegol da, pan fydd strwythurau a swyddogaethau systemau mawndir iach ar waith.

Mae Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno cynllun pum mlynedd i adfer ecosystemau mawndir wedi’u targedu ledled Cymru ac fe’i hariennir gan Lywodraeth Cymru.

Er na chyflwynwyd unrhyw gynigion yn ymwneud ag adfer mawndir, mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o’r farn bod yn rhaid i gyflymu buddsoddiad hirdymor mewn adfer mawndir fod yn elfen ganolog o’r adferiad gwyrdd. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gweithio gyda grwpiau ffermio, y rhannau hynny o’r sector cyhoeddus sy’n berchen ar dir a sefydliadau trydydd sector i archwilio modelau ariannu amgen i gyflymu buddsoddiad yn y maes hwn.

[29] https://nbn.org.uk/stateofnature2019/reports/
[30] https://cdn.naturalresources.wales/media/682367/sonarr-summary-september-2016-welsh-edited-august-2017.pdf

## Adfer ac ehangu coetir a gwrychoedd

Mae cynyddu gorchudd coed trwy blannu gwrychoedd ac ardaloedd coetir newydd yn dal a storio carbon atmosfferig. Mae rhai astudiaethau yn honni bod coedwigoedd yn dal tua hanner allyriadau carbon y byd o danwyddau ffosil bob blwyddyn.[31] Mae coetir presennol yn helpu i leihau llifogydd trwy arafu a storio dŵr. Er mwyn bodloni targedau newid yn yr hinsawdd, mae Pwyllgor ar Newid Hinsawdd y DU wedi cynghori cynnydd i orchudd coetir yng Nghymru o 2,000 hectar y flwyddyn, yn codi i 4,000 hectar y flwyddyn cyn gynted â phosibl.[32] Fodd bynnag, mae gan Gymru lawer o waith i'w wneud i gyflawni'r uchelgais hwn.

Mae'r goeden iawn yn y lle iawn yn ganolog i bolisi a fframwaith cyflawni Llywodraeth Cymru. Mae adfer a gwella coetir yn hanfodol bwysig hefyd, gan fod cynefinoedd coetir yn bwysig i fywyd gwyllt, yn darparu ffynhonnell o bren ac yn creu cyfleoedd ar gyfer hamdden a thwristiaeth.

Mae gan Lywodraeth Cymru raglenni blaenllaw sydd wedi'u hen sefydlu i gefnogi buddsoddiad mewn adfer ac ehangu coetir, a rhyddhawyd cyfanswm o £34 miliwn trwy raglen Glastir. Mae Llywodraeth Cymru newydd lansio'r rhaglen 'Fforest Genedlaethol i Gymru' ac mae ganddi gynllun grant coetiroedd cymunedol a reolir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn rheoli rhaglen creu coetir helaeth yn ogystal â Rhaglen Plant! Llywodraeth Cymru. Ceir llawer iawn o weithgarwch yn y maes hwn ond mae cynnydd yn dibynnu ar ddod o hyd i ardaloedd addas o dir ar gyfer plannu, yn ogystal â chyflenwadau dibynadwy o stoc blannu briodol. Efallai na fydd capasiti mewn meithrinfeydd coed presennol yn ddigonol i fodloni'r galw ychwanegol hwn.

Derbyniwyd dros 40 o gyflwyniadau gennym yn ymwneud â phlannu coed gan aelodau unigol o'r cyhoedd, grwpiau cymunedol a sefydliadau trydydd sector, sy'n dangos y diddordeb sylweddol yn y pwnc hwn a'r angerdd tuag ato.

Nododd ein hadolygiad o'r cynigion lawer sy'n cyd-fynd yn naturiol â'r rhaglenni presennol sy'n cael eu rhedeg gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod efallai fod rhai pobl eisoes wedi cyflwyno ceisiadau am grant i'r rhaglenni presennol hyn a dim ond trwy ddeall y cyd-destun hwn y gallant ddod o hyd i ffordd ymlaen. Mae harneisio'r egni a'r brwdfrydedd tuag at blannu coed yn hanfodol bwysig ac mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi ymrwymo i weithio gyda chynigwyr i ddarparu cyngor ac adborth wedi'u teilwra. Yn gyfochrog, bydd y Grŵp yn archwilio modelau darparu amgen gan ei bod yn hollbwysig ein bod yn adeiladu ar y brwdfrydedd hwn ac yn ei harneisio. Plannu coed yn gyflym a/neu alluogi adfywio naturiol sy'n allweddol i Gymru fodloni'r targedau lleihau allyriadau heriol.

Gallai ehangu coetir a gwrychoedd hefyd gynnig cyfleoedd sylweddol ar gyfer cyfrannu at yr economi gylchol. Mae un cynnig yn canolbwyntio ar gyfleoedd i ddatblygu meithrinfeydd coed i sicrhau bod cyflenwad diogel o goed ifanc i fodloni'r galw yng Nghymru yn y

---

[31] 'Advice on using nature based interventions to reach net zero greenhouse gas emissions by 2050', y Pwyllgor Cyfalaf Naturiol, 2020

[32] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cynllun-cyflawni-carbon-isel-cy_0.pdf

dyfodol, ac mae ail un yn archwilio datblygu marchnadoedd newydd o werth uwch ar gyfer pren ym maes adeiladu tai. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cyflwyno ei asesiad o'r cynigion hyn yn adran 5.

Ceir nifer o gynigion yn gysylltiedig â denu pobl i'r Fforest Genedlaethol arfaethedig mewn ffyrdd newydd a chreadigol, fel '*End to end walking Wales under tree canopy*'. Mae gan y rhain weledigaeth eglur a allai lywio'r gwaith o ddylunio'r Fforest Genedlaethol i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer twristiaeth leol a rhanbarthol. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn rhannu'r syniadau hyn gyda thîm Llywodraeth Cymru sy'n arwain datblygiad y Fforest Genedlaethol.

Mae plannu coed mewn lleoliadau trefol yn rhan hanfodol o'r themâu ar gyfer tai, gan ailddychmygu ein hardaloedd trefol a theithio llesol. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn bod lle gwirioneddol i adeiladu ar y cynigion a gyflwynir yn '*Orchards for Wales*', '*Tree Town Greening teams*' a '*Managing hedges for biodiversity*' i ddatblygu rhaglen wedi'i thargedu a'i chanolbwyntio'n eglur i gynorthwyo gwaith plannu coed a gwrychoedd mewn ardaloedd trefol ledled Cymru. Mae awdurdodau lleol Wrecsam, Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe a Chaerdydd, er enghraifft, eisoes wedi defnyddio'r teclyn iTree i nodi gorchudd coed yn yr ardal drefol.

Fel cam cyntaf, bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cefnogi cyflwyniad rhaglen o asesiadau iTree ar draws trefi a dinasoedd, i ddarparu tystiolaeth o waith rheoli coed trefol a llywio'r gwaith o baratoi cynigion plannu coed trefol yn gysylltiedig â'r blaenoriaethau gofodol a nodwyd yn yr Adroddiad Brigdwf Coed Trefol.[33]

Tabl 6: Adfer ac ehangu coetir a gwyrchoedd

| Sgôr | Sefydliad | Enw'r cynnig | Lleihau allyriadau carbon a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd | Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth | Economi gylchol | Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19 | Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Trees for All | More Trees Now | Ddim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Ddim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Ddim yn cyfrannu |
| 1 | Farm Garden | Orchards for Wales | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Ddim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Ddim yn cyfrannu |
| 1 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Advancing i-Tree - cefnogi gwelliannau i seilwaith gwyrdd trefol ledled Cymru | Ddim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Ddim yn cyfrannu | Ddim yn cyfrannu | Ddim yn cyfrannu |
| 1 | Coed Cadw | Tree Towns Teams for Wales | Ddim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Ddim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |

[33] https://www.google.com/search?q=brigdwf+coed+trefol+cymru&ie=&oe=

| Sgôr | Sefydliad | Enw'r cynnig | Lleihau allyriadau carbon a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd | Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth | Economi gylchol | Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19 | Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Woodknowledge Wales | Home grown homes 2 | Yn cyfrannu | Ddim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Ddim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Dylai bob tref gael goedwig ei hun | Ddim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Ddim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Ddim yn cyfrannu |
| 2 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cymu o dan ganopi o goed | Yn cyfrannu | Ddim yn cyfrannu | Ddim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Ddim yn cyfrannu |
| 2 | Cyngor Tref Hwlfordd | The National Forest Nursery and Information Centre | Ddim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | Cwm Arian Renewable Energy/Growing Better Connections | Managing Hedges for Biodiversity | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Ddim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Ddim yn cyfrannu |
| 2 | Going Green for a Living CLT Ltd | Cooperative Woodlands Cymru – creating and managing woodlands from the roots up. | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Ddim yn cyfrannu | Ddim yn cyfrannu | Ddim yn cyfrannu |

## Carbon Glas yn yr amgylchedd morol

Mae'r Grŵp yn cydnabod nid yn unig y byddai buddsoddi mewn cynefinoedd morol ac arfordirol o fudd i natur ond hefyd yn sicrhau buddion sylweddol i gymunedau, gan eu hamddiffyn rhag llifogydd o ymchwyddiadau storm a phenllanwau uchel. Mae hyn yn gynyddol bwysig wrth i ni wynebu lefelau môr sy'n codi ac amlder cynyddol digwyddiadau tywydd eithafol. Mae gwaith diweddar a wnaed gan Cyfoeth Naturiol Cymru[34] yn dynodi bod yr amgylchedd morol eisoes yn storio lefelau sylweddol o garbon. O gofio bod llawer o gynefinoedd morol ac arfordirol sy'n bwysig ar gyfer dal a storio carbon, fel glaswellt y môr a morfeydd heli, wedi dioddef colledion hanesyddol o ran eu maint o gwmpas Cymru, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod y cyfle sylweddol i gynyddu potensial carbon glas ein moroedd trwy adfer y cynefinoedd hyn.

Mae'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn gorchuddio bron i 70% o foroedd Cymru. Ceir cyfleoedd sylweddol yn y rhwydwaith hwn i ddatblygu cydnerthedd

[34] Armstrong, S., Hull, S., Pearson, Z., Wilson, R. a Kay, S., 2020. *Estimating the Carbon Sink Potential of the Welsh Marine Environment*. Adroddiad tystiolaeth 428 Cyfoeth Naturiol Cymru

cynefinoedd fel glaswellt y môr a morfeydd heli ac mae sawl prosiect cyffrous ar y gweill yn nyfroedd Cymru.[35]

Rydym wedi derbyn sawl cynnig sy'n ymwneud ag adfer cydnerthedd ecolegol ecosystemau morol, gan gynnwys '*Restoring marine ecosystems*', '*Coastal champions*', '*Making the most of our changing coast*', '*Protecting marine assets'* a '*Marine Safe havens*'. Mae un cynnig yn ymwneud ag adfer niferoedd wystrys brodorol, a fyddai'n cynyddu carbon glas ond hefyd yn arwain at welliannau i ansawdd dŵr. Hefyd, ceir cyfleoedd sylweddol o'r cynnig hwn ar gyfer creu marchnadoedd newydd ac ychwanegu gwerth at rwydweithiau cyflenwi bwyd lleol.

Ceir llawer o agweddau cyffredin rhwng y prosiectau hyn ac mae aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi gweithio gyda Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol i grynhoi'r cynigion, gan gydnabod bod gan bob un ohonynt rinweddau o ran mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, gan gynyddu sgiliau mewn maes gwyddonol newydd. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn bod angen gwneud mwy o waith i nodi'r dull mwyaf priodol i gefnogi'r ddarpariaeth ac wedi ymrwymo i weithio gyda Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol i gyflawni hyn. Croesgyfeiriwch at dabl 9 i weld y cynigion

## Adfer afonydd a gwlyptiroedd

Mae gwella ansawdd dyfroedd mewndirol yn ogystal â rheoli a gwella llifau afonydd yn hanfodol, gan greu manteision i fioamrywiaeth ac i bobl trwy fynediad at ddŵr diogel a dibynadwy i'w ddefnyddio yn y cartref, ar y fferm, mewn busnesau a diwydiant yn ogystal ag fel ffynhonnell ar gyfer gweithgareddau hamdden a thwristiaeth.

Mae rhaglenni buddsoddi eang wedi'u cynllunio gan gwmnïau dŵr,[36] Cyfoeth Naturiol Cymru[37] a Llywodraeth Cymru[38] sy'n cefnogi gwahanol agweddau ar adfer afonydd a gwlyptiroedd a Rheoli Llifogydd Naturiol.

Derbyniwyd dau gynnig gan Dŵr Cymru Welsh Water. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r ddarpariaeth o gynllun cyllid grant i gynorthwyo gwelliannau i ddalgylchoedd afonydd sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol y cwmni. Cynllun o fath Talu am Wasanaethau Ecosystemau (TWE) yw'r ail, i gynorthwyo gwelliannau o ran rheoli tir mewn dalgylchoedd blaenoriaeth. Mae gan y ddau gynnig hyn rinweddau gwirioneddol ac fe'u croesewir gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Mae'r Grŵp yn ymrwymo i weithio gyda'r cwmni i sicrhau bod y cynigion hyn yn cyd-fynd â chamau nesaf gweithredu'r adferiad gwyrdd.

[35] https://www.projectseagrass.org/seagrass-ocean-rescue/

[36] https://www.ofwat.gov.uk/regulated-companies/price-review/2019-price-review/final-determinations/
https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/about-us/our-plans/water-2020

[37] CNC, Adfer afonydd £2.2 mil 2020/21; ynghyd â £450k bob blwyddyn

[38] https://llyw.cymru/mwy-na-2filiwn-ar-gyfer-cynlluniau-rheoli-llifogydd-yn-naturiol-ar-draws-cymru

Tabl 7: Adfer afonyd a gwlyptiroedd

| Sgôr | Sefydliad | Enw'r cynnig | Lleihau allyriadau carbon a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd | Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth | Economi gylchol | Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19 | Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | DCWW | Cyflymu prosiectau bioamrywiaeth drwy Banel Cynghori Amgylcheddol Annibynnol Dŵr Cymru IEAP i gefnogi gwydnwch ecolegol a newid yn yr hinsawdd | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 1 | DCWW | Datblygu Gwasanaethau Ecosystem yn seiliedig ar y Farchnad (MES) i gefnogi rheolaethau llygredd gwasgaredig, a gwella gwydnwch ecolegol | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | WWF Cymru | Tynnu seilwaith llwyd | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Adfer afonydd Cymru | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Datblygu prif gynlluniau draenio ar gyfer pentrefi gwledig yng Nghymru | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |

## Sut y caiff y gwaith hwn ei ddatblygu – Cyfleoedd i gyflymu Atebion ar Sail Natur

Mae Atebion ar Sail Natur yn cynnig buddion lluosog i natur a datgarboneiddio. Mae arafu'r llif yn ein hafonydd neu ddal carbon yn ein mawndiroedd o fudd i gymunedau yng nghyffiniau uniongyrchol y gwelliant, yn ogystal â'r rhai sydd ymhellach i ffwrdd. Mae'r

Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn bod yn rhaid i Atebion ar Sail Natur fod yn ganolog i'r adferiad gwyrdd yng Nghymru.

Nid oes amheuaeth y bydd buddsoddi mewn Atebion ar Sail Natur yn ysgogi cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau a chyflogaeth, nid yn unig yn y ddarpariaeth uniongyrchol o raglenni gwaith, ond hefyd cyfleoedd ymhellach i fyny'r gadwyn i gyflenwi deunyddiau fel ffensys ac amddiffynwyr coed ifanc. Ceir cyfleoedd hefyd i ysgogi busnesau newydd fel meithrinfeydd coed. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn ei bod yn hanfodol bod cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu i BBaChau a chontractwyr bach i'w galluogi i fanteisio ar y cyfleoedd hyn. Bydd y Grŵp yn gweithio gyda sefydliadau fel Canolfan Cydweithredol Cymru a Busnes yn y Gymuned i nodi pa fath o raglenni cymorth y gellir eu datblygu.

Hyd yn hyn, buddsoddiad mewn Atebion ar Sail Natur wedi cael ei nodweddu gan gyllid byrdymor a phrin fu'r dulliau a oedd ar gael i alluogi a chymell dulliau o'r gwaelod i lawr yn cynnwys ffermwyr a rheolwyr tir eraill. Mae cydweithrediad ystyrlon yn gofyn am fuddsoddiad ymlaen llaw o amser ac arian i ddatblygu perthynas a datblygu ymddiriedaeth gyda'r gymuned a rheolwyr tir. Gall cyllid byrdymor fod yn rhwystr i greu'r cysylltiadau a'r partneriaethau hyn. Rydym wedi gweld rhai prosiectau uchel eu proffil yng Nghymru yn methu gan eu bod wedi methu â chynnwys y gymuned a pherchnogion a rheolwyr tir yn iawn yn nyluniad y cynnig.

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn ei bod yn hanfodol symud i ddull ariannu hirdymor i ysgogi Atebion ar Sail Natur. Mae angen i arian fod ar gael dros sawl blwyddyn i annog cydweithrediad a gwaith partneriaeth.[39] Gan adeiladu ar argymhellion yr adroddiad "*Green recovery: Supporting the environment sector in Wales*",[40] bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn dod â'r cyrff ariannu sy'n gweithredu yng Nghymru at ei gilydd i archwilio sut y gellir targedu cyllid i gynorthwyo buddsoddiad mewn Atebion ar Sail Natur trwy feithrin diwylliant o gydweithredu. Mae'r defnydd o fecanweithiau ariannol a modelau darparu amgen, gan gynnwys cyfranogiad cyllid preifat, yn hanfodol, ac fe'i hystyrir yn fwy manwl yn adran 6.2.

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod y swyddogaeth hollbwysig y mae'n rhaid i ffermwyr a rheolwyr tir ei chyflawni o ran darparu Atebion ar Sail Natur ar y tir y maent yn berchen arno ac yn ei reoli. Ceir rhai enghreifftiau gwych lle mae ffermwyr eisoes yn gweithredu,[41] ond mae'r Grŵp yn cydnabod bod y sector yn wynebu cyfnod o ansicrwydd digynsail wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd ac i Lywodraeth Cymru ddatblygu'r Cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Mae magu hyder ffermwyr i gymryd camau Atebion ar Sail Natur yn hanfodol bellach. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn y dylid archwilio cyfleoedd i gynorthwyo ffermwyr a rheolwyr tir yn y cyfnod pontio hyd at 2024, yn ogystal â darparu signalau clir i'r farchnad i ddechrau rhoi cyfrif am wir gost cynhyrchu bwyd, gan helpu'r farchnad i addasu i werthfawrogi bwyd iach a bwyd iach Cymru o ansawdd uchel, wedi'i gynhyrchu o ffynonellau lleol a chynaliadwy. Dylai egwyddor cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb fod yn sail i'r cyfnod pontio hwn, gan ganiatáu i bob ffermwr fabwysiadu camau Atebion ar Sail Natur ar y tir y mae'n berchen arno neu'n ei reoli, ac i hyn beidio â rhagfarnu ei gymhwysedd i fanteisio ar gynlluniau ariannu yn y dyfodol.

---

[39] Funding Centre, 2020, 'Green recovery: Supporting the environment sector in Wales'

[40] 'Green Recovery: Supporting the environment sector in Wales', Hydref 2020, The Funding Centre

[41] https://ffcc.co.uk/assets/downloads/FFCC_Wales-Field-Guide-for-Future-Generations_English.pdf

# 5. Trawsnewid ein systemau economaidd-gymdeithasol

Ni fydd Atebion ar Sail Natur ar eu pen eu hunain yn ddigon i ysgogi'r adferiad gwyrdd. Mae angen camau i fynd i'r afael â lefelau anghynaliadwy o gynhyrchiant a defnydd hefyd i sicrhau ein bod yn lleihau'r pwysau ar ein hadnoddau naturiol trwy gadw adnoddau mewn defnydd am gyhyd â phosibl, osgoi pob math o wastraff a symud i opsiynau eraill mwy cynaliadwy.  Mae angen i'n ffordd o fyw, a'r systemau a ddefnyddiwn i gynhyrchu a defnyddio pethau sy'n ei gefnogi, newid. Mae IPBES y Cenhedloedd Unedig yn tynnu sylw at yr angen am newidiadau trawsnewidiol ar draws y system. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod y rhan arwyddocaol y gall yr adferiad gwyrdd ei chwarae o ran symud i economi gylchol. Mae'r bennod hon yn rhoi sylw i'r cyfleoedd i gyflymu symudiad sectorau allweddol o economi Cymru, gan amlygu'r hyn y gellir ei wneud, yn ogystal â'r cyfleoedd i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i natur, datgarboneiddio a'r economi gylchol.

## Bwyd

Mae system fwyd y DU yn newid wrth i Lywodraeth y DU negodi'r ymadawiad â'r UE. Mae ffermwyr yn debygol o fod yn ddarostyngedig i systemau newydd o gymorth amaethyddol fel y nodir yng Nghynllun Ffermio Cynaliadwy datblygol Llywodraeth Cymru, a gallai Bil Masnach Llywodraeth y DU greu'r posibilrwydd o fewnforio cynhyrchion â safonau is o ddiogelwch bwyd, lles anifeiliaid ac ansawdd amgylcheddol. Mae'r eiddilwch a'r anghydraddoldebau sy'n rhan annatod o system fwyd y DU wedi cael eu hamlygu drwy'r pandemig: mae'r galw am nwyddau ffermwyr sy'n ddibynnol ar y sectorau cyfanwerthu a lletygarwch wedi gostwng yn sylweddol, mae cwsmeriaid archfarchnadoedd wedi pentyrru nwyddau, a bu cynnydd sylweddol i nifer y teuluoedd sy'n defnyddio banciau bwyd. Mae cynhyrchwyr bwyd o'r ffermwr i'r groser, y cigydd, perchnogion caffis a bwytai wedi dod o hyd i ffyrdd newydd o gysylltu â chwsmeriaid, a chafwyd symudiad i leoliaeth trwy werthu ar-lein, dosbarthu bocsys bwyd a danfon prydau i gartrefi.

## Beth sydd angen digwydd – Cyfleoedd i'r Adferiad Gwyrdd ym maes bwyd

Mae'r ymadawiad â'r UE a'r ailstrwythuro o gynlluniau taliadau fferm sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn golygu bod ansicrwydd sylweddol mewn marchnadoedd a phrisiau amaethyddol. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn bod budd sylweddol o weithio gyda llawer o'r cynigion i dreialu a phrofi newidiadau system gyfan a allai gynnig manteision pellgyrhaeddol i adferiad gwyrdd hirdymor.

Bydd nifer o gynigion yn cael eu cysylltu â rhaglen a gefnogir gan Gomisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad Cymru i gyflymu'r newid i gynhyrchu bwyd iach, hygyrch a fforddiadwy yn gynaliadwy yng Nghymru. Daw cynigion i gael eu cynnwys yn y rhaglen hon gan sefydliadau trydydd sector mawr a bach sefydledig yn ogystal â harneisio egni ffermwyr a thyfwyr cymunedol. Mae rhai o'r cynigion i gael eu cynnwys yn y rhaglen yn canolbwyntio ar fentrau tyfu cymunedol presennol, fel Prosiect Plannu Penparcau yn Aberystwyth, tra bo eraill yn dymuno ehangu tyfu cymunedol mewn ardaloedd trefol. Mae Sustainable Food

Places a Synnwyr Bwyd Cymru wedi cyflwyno cynigion a gymeradwywyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Mae’r ddau gynnig wedi llwyddo i sicrhau cyllid grant trwy lwybrau eraill i gefnogi partneriaethau bwyd traws-sector a’r newid i systemau bwyd carbon isel. Gan fod arian grant ar gael i ariannu cynlluniau peilot, mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn croesawu’r cyfle i gyfuno’r gwahanol elfennau hyn i gyd-ddylunio dull a fydd yn darparu dull mwy cyfannol a chydgysylltiedig o dyfu bwyd yng Nghymru.

Mynediad at dir ar gyfer cynhyrchu bwyd cydweithredol ar y raddfa gymunedol yw canolbwynt nifer o gynigion. Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi ei chefnogaeth barhaus yn y maes hwn a chyhoeddwyd grant Menter Adfywio Rhandiroedd Cymru yn yr haf. O gofio’r diddordeb parhaus mewn rhandiroedd a thyfu bwyd cymunedol, bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi beth, os unrhyw beth, y gellir ei wneud i gynorthwyo ehangiad rhandiroedd ledled Cymru.

Mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod bod nifer o gynigion yn ddibynnol ar drosglwyddo tir o sefydliadau sector cyhoeddus i’w ddefnyddio gan grwpiau cymunedol. Gall y broses gyfreithiol ar gyfer mynd ati i wneud hyn fod yn hirfaith gan fod nifer o faterion i’w hystyried. Bydd y Grŵp yn comisiynu adolygiad i nodi ffyrdd mwy effeithiol o drosglwyddo tir sy’n eiddo cyhoeddus neu a reolir yn gyhoeddus i grwpiau cymunedol, gan gynnwys asesiad o’r risgiau a’r cyfleoedd i sefydliadau sector cyhoeddus a grwpiau cymunedol. Mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o’r farn mai hyn sy’n allweddol i wireddu potensial nifer o gynigion a gyflwynwyd.

Nid oes amheuaeth bod rhai meysydd sy’n rhan o gylch gwaith y llywodraeth i ddatgloi potensial. Mae buddsoddiad uniongyrchol mewn cyfleusterau prosesu bwyd lleol fel lladd-dai a chyfleusterau prosesu a phacio ar gyfer cig a llysiau yn hanfodol i gynyddu cydnerthedd sector ffermio Cymru. Cydnabuwyd y bwlch hwn mewn nifer o adroddiadau gan Lywodraeth Cymru a’r undebau ffermio yn y cyfnod cyn yr ymadawiad â’r UE.[42]

Mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod y gall cysylltu tyfwyr bwyd â marchnadoedd lleol, trwy leihau’r gadwyn gyflenwi, ddim ond gweithio os bydd y seilwaith cywir ar waith yn lleol. Rhoi sylw i’r bwlch hwn sy’n allweddol i alluogi llawer o ffermwyr a thyfwyr ledled Cymru i arallgyfeirio eu modelau busnes. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, dan arweiniad y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad yn trefnu gweithdy i ystyried y ffordd orau o alluogi hyn.

Mae nifer o gynigion yn ymwneud ag adeiladu capasiti garddwriaeth trwy wella’r seilwaith sydd ar gael. Mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod rhinweddau’r cynigion hyn a bydd yn darparu cymorth i ddatblygu achosion busnes. Mae’r Grŵp o’r farn bod cyfle gwirioneddol i Lywodraeth Cymru ddatblygu rhaglen fuddsoddi wedi’i thargedu i gynorthwyo ehangiad y sector garddwriaeth yng Nghymru, gyda chyfleoedd i ddatblygu sgiliau. Hefyd, ceir rhinwedd mewn adolygu’r rheolau cynllunio i gael gwared ar y meini prawf maint 5 hectar sydd wedi’u cynnwys yn y diffiniad o “fusnes priodol” ar gyfer hawliau datblygu garddwriaethol a ganiateir.

[42] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/gweithdai-cynllunio-senarios-ymadael-ar-ue-cyflwyniad.pdf

## Sut y caiff y gwaith hwn ei ddatblygu – Cyfleoedd i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ar gyfer natur, datgarboneiddio a'r economi gylchol

Cydnabyddir bwyd yn gyffredin fel cyfle trawsbynciol mawr yn llawer o'r cynigion. Mae newidiadau i'r ffordd yr ydym yn cynhyrchu ein bwyd o bosibl yn cynnig llu o fanteision, gan gynnwys lleihau allyriadau, adfer bioamrywiaeth, effeithlonrwydd adnoddau, gwella sgiliau, creu swyddi, gwell maetheg ac iechyd, lleihau tlodi plant, cysylltu pobl â'u tirwedd, hunaniaeth ddiwylliannol a lleihau anghydraddoldebau.

Mae bwyd yn gyfle allweddol i gadw rhai o'r ymddygiadau cadarnhaol a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae defnyddwyr yn fwy ymwybodol o'u gwastraff bwyd ac mae manwerthwyr/busnesau bwyd a diod wedi elwa o bobl yn chwilio am gyflenwadau lleol.

Wrth feddwl am gyfleoedd economi gylchol yn y system fwyd, mae'n bwysig meddwl y tu hwnt i gynhyrchu cynnyrch, i ystyried y cyfleoedd ymhellach i lawr ac i fyny'r gadwyn. Er enghraifft, efallai y bydd cyfleoedd i ddefnyddio deunyddiau pacio carbon isel, amgen neu newid y defnydd o rai deunyddiau i rai sy'n cael llai o effaith.

Mae ffermwyr a rheolwyr tir yn chwarae rhan ganolog o ran darparu Atebion ar Sail Natur ar y tir y maent yn berchen arno ac yn ei reoli, gyda manteision ehangach i'r economi gylchol ac iechyd a maetheg cymunedol. Maent yn wynebu cyfnod o ansicrwydd digynsail wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd ac i Lywodraeth Cymru ddatblygu'r Cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy newydd. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn y dylid sefydlu mecanweithiau cymorth yn y cyfnod rhwng nawr a 2024 i alluogi ffermwyr i ddechrau cymryd camau nawr o ran Atebion ar Sail Natur. Dylai'r egwyddor o gyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb fod yn sail i'r cyfnod pontio hwn, gan ganiatáu i bob ffermwr fabwysiadu camau Atebion ar Sail Natur ar y tir y mae'n berchen arno neu'n ei reoli, ac i hyn beidio â rhagfarnu ei gymhwysedd i gael mynediad at gynlluniau ariannu yn y dyfodol.

Tabl 8: Bwyd

| Sgôr | Sefydliad / rhaglen | Enw'r cynnig | Lleihau allyriadau carbon a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd | Gwrthdro i'r dirywiad mewn bioamrywiaeth | Economi gylchol | Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19 | Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cyfoeth Naturiol Cymru | CNC a systemau bwyd cynaliadwy carbon isel | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 1 | Deepdock Ltd | "Seas of Change: The Collaborative Development | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |

| Sgôr | Sefydliad / rhaglen | Enw'r cynnig | Lleihau allyriadau carbon a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd | Gwrthdro i'r dirywiad mewn bioamrywiaeth | Economi gylchol | Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19 | Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | of Open Water Shellfish Production and Functional Foods Supply Chain in Wales" | | | | | |
| 1 | Sustainable Food Places | Trosglwyddo i system fwyd carbon isel a chynaliadwy drwy wneud Cymru yn genedl o bartneriaethau bwyd traws-sector lleol a chreu mudiad bwyd da i Gymru. | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 1 | Synnwyr Bwyd Cymru | "Growing our growers to grow" | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 1 | Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol Cymru | Cynhyrchu Bwyd lle mae ei angen fwyaf | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 1 | Canolfan Gymunedol Penparcau | Prosiect Plannu Penparcau | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | The Green Valleys (Wales) CIC | Cymhorthdal Cynhyrchu Bwyd Lleol - Y "Tariff Bwydo" | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | The Green Valleys (Wales) CIC | Stiwardiaeth tir cymunedol– Skyline | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | One Planet Council | Hybu datablygiad 'Welsh One Planet' | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Coed Cadw | Asesiadau Cynefin Cynllun Fferm ar gyfer pob Fferm yng Nghymru | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |

| Sgôr | Sefydliad / rhaglen | Enw’r cynnig | Lleihau allyriadau carbon a chynyddu’r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd | Gwrthdro i'r dirywiad mewn bioamrywiaeth | Economi gylchol | Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19 | Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Coed Cadw | ‘Tree Friendly Future Farming’ | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | Agro Bio Wales | Agro Bio Wales | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Adfywio Cymru | Cynlluniau bwyd lleol ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | Our Food | ‘Land entrepreneurs’ | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | Resilience Network Pembrokeshire | ‘Community produce land Pembrokeshire’ | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | Being Somewhere | Cymorth rhagweithiol ar gyfer cynhyrchu bwyd ar raddfa fach sy'n ddoeth yn yr hinsawdd ac yn ecolegol gadarn. | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | Pembrokeshire Nature Partnership | ‘Restorative Agriculture Demonstrators’ | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | The Landworkers Alliance Cymru | Grantiau cyfalaf ar gyfer garddwriaeth bwytadwy a seilwaith cadwyn gyflenwi fer | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | The Landworkers Alliance Cymru | Cronfa Genedlaethol Cydnerth Gymunedol Cymru a Gwasanaeth Bwyd Gwladol | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | Community Land Advisory Service Cymru | ‘Unlocking Land’ | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol | Coridorau peillio | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | Y Dref Werdd | Datblygu tir cymunedol a | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |

| Sgôr | Sefydliad / rhaglen | Enw'r cynnig | Lleihau allyriadau carbon a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd | Gwrthdro i'r dirywiad mewn bioamrywiaeth | Economi gylchol | Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19 | Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | diogelu cynefinoedd | | | | | |
| 2 | WWF Cymru | Rheoli Tir Cymunedol ar Raddfa Fach | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Going Green for a Living CLT Ltd | Cooperative Woodlands Cymru – creu a rheoli coetiroedd o'r gwreiddiau i fyny. | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Defnyddio Bwyd Dros Ben ac Atal gwastraff bwyd | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Labelu bwyd yn Well i rymuso defnyddwyr i ddewis dietau iach a chynaliadwy | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | WWF Cymru | Trwsio System Fwyd Cymru i Alluogi Swyddi Gwyrdd | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | Being Somewhere | Cymorth rhagweithiol ar gyfer cynhyrchu bwyd ar raddfa fach sy'n ysytyried yr hinsawdd | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |

# Y Môr

Mae Cymru yn wlad arfordirol ac mae ein hamgylchedd morol yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i gefnogi adferiad gwyrdd. Mae'r rhain yn amrywio o Atebion ar Sail Natur i'r cyfleoedd economaidd sylweddol o ran pysgodfeydd, dyframaethu, twristiaeth, ynni adnewyddadwy'r môr, a chefnogi llesiant trwy fynediad at yr amgylcheddol morol ac arfordirol.

Mae cymunedau arfordirol yng Nghymru yn wynebu effeithiau economaidd uniongyrchol Covid-19 a Brexit, ochr yn ochr â her fwy hirdymor o ddirywiad economaidd ac erydu arfordirol a llifogydd o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd mewn llawer o achosion.

## Beth sydd angen digwydd – Cyfleoedd i Adferiad Gwyrdd ar y môr

Cyflwynwyd nifer gymharol fach o gynigion yn ymwneud â materion morol ac arfordirol. Gweithiodd aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyda Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol i ystyried y cynigion, gan dynnu sylw at y gorgyffwrdd sylweddol rhyngddynt. Gan weithio gyda Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol, crynhowyd y cynigion gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ganolbwyntio ar weithio gyda chymunedau morol ac arfordirol i harneisio'r cyfleoedd a gynigir gan ein harfordiroedd a'n moroedd. Roedd y cyflwyniadau yn pwysleisio cyfle sylweddol i ddarparu rhaglen o waith sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn galluogi cymunedau arfordirol i fwrw ymlaen ag adferiad glas.

Byddai'r rhaglen yn rhoi sylw i:

- Yr angen i godi ymwybyddiaeth a chynyddu gallu mewn cymunedau arfordirol i nodi a manteisio ar gyfleoedd lleol ar gyfer adferiad glas.

- Yr her o addasu'r arfordir i'r newid yn yr hinsawdd yn sgil lefelau môr sy'n codi, a'r angen i gynnwys cymunedau arfordirol mewn blaengynllunio ar gyfer morlin sy'n newid, gan archwilio pwysigrwydd atebion ar sail natur a chyfleoedd economaidd a chymdeithasol (fel twristiaeth arfordirol; llesiant trwy fynediad at fannau glas).

- Y cyfleoedd economaidd penodol a gynigir yn yr amgylchedd morol o ran pysgodfeydd a dyframaethu, twristiaeth arfordirol, ac ynni adnewyddadwy.

- Potensial ynni adnewyddadwy'r môr i gyfrannu at yr agenda ddatgarboneiddio. Yn benodol, mae angen brys i fynd i'r afael â blaenoriaethau tystiolaeth ynni adnewyddadwy'r môr sy'n gallu llywio'r broses o wneud penderfyniadau am ddefnydd cynaliadwy o'r technolegau hyn.

## Sut y caiff y gwaith hwn ei ddatblygu – sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ar gyfer natur, datgarboneiddio a'r economi gylchol

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i fireinio'r cynigion hyn ymhellach, ac yn croesawu ymrwymiad Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol i gynyddu graddfa gwaith y Grŵp Strategol Cynghori ar Ganiatadau sydd eisoes yn bodoli i fynd i'r afael yn fwy cyflym â blaenoriaethau tystiolaeth ynni adnewyddadwy'r môr a nodwyd i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau am y defnydd cynaliadwy o dechnolegau ynni adnewyddadwy'r môr yn nyfroedd Cymru.

Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gweithio gyda Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol i archwilio dyluniad a darpariaeth 'Cronfa Arfordirol Twf Glas' a allai gefnogi ymgysylltiad â chymunedau arfordirol i nodi, cynllunio a darparu prosiectau integredig sy'n rhoi sylw i gyfleoedd lleol i ddarparu manteision lluosog. Gallai datblygu cronfa hirdymor o'r fath gynnwys nodi mecanweithiau cyllid cynaliadwy neu adeiladu ar fecanweithiau cyllid mwy cul presennol fel Cronfa Cymunedau'r Arfordir LlC.

Tabl 9: Y môr

| Sgôr | Sefydliad | Enw'r cynnig | Lleihau allyriadau carbon a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd | Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth | Economi gylchol | Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19 | Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Marine Energy Wales | CSAG science and evidence subgroup | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 1 | Pembrokeshire Coastal Forum | WATO Sefydliad antur a thwristiaeth Cymru | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 1 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Adfer ecosystemau morol | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 1 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Defnyddio technoleg adnewyddu forol gynaliadwy | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 1 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Gweud y gorau o'n harfordir | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru | A sustainable marine | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |

| Sgôr | Sefydliad | Enw'r cynnig | Lleihau allyriadau carbon a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd | Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth | Economi gylchol | Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19 | Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | energy sector | | | | | |
| 2 | Severn Estuary Partnership | Cymuned Arfordirol Cymru | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | Pembrokeshire Coastal Forum | Aferiad Glas Cymru | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Marine Conservation Society | Diogelu asedau morol ar gyfer y dyfodol | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Marine Conservation Society | Marine Safe Havens | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | James Wilson | Mwy o gynhyrchu pysgod cregyn dwr | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | RSPB | Prosiect gwydnwch adar môr Cymru | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | Marine Energy Wales | Cynllun peilot ynni cymunedol arfordirol ynni morol | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Canoe Wales | Cynyddu cyfleoedd glas | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | RSPB | Hyrwyddwyr arfordirol | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |

## Ailddychmygu ein hardaloedd trefol gyda natur a mannau gwyrdd yn ganolog iddynt

Newidiodd y cyfyngiadau symud y ffordd yr ydym yn gweithio yn ddramatig. Mewn mater o ddiwrnodau, newidiodd llawer ohonom i weithio gartref ac addysg gartref. I rai pobl, roedd hwn yn newid di-dor, ond, i lawer, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, daeth signal band eang gwael yn rhwystr i addysg a gwaith gartref ac i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus ar-lein.

Mae arolygon wedi dynodi bod llawer o bobl yn dymuno parhau i weithio gartref ar ôl i'r pandemig ddod i ben, gan nodi'r manteision sylweddol i'w cydbwysedd bywyd a gwaith a'u llesiant, gan leihau cymudo a chyfrannu at ostyngiad i allyriadau carbon. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod 30% o'r gweithlu yn gweithio gartref yn rheolaidd yn y dyfodol.

Mynediad cyfartal at fand eang cyflym ledled Cymru yw'r hyn sy'n allweddol i fodloni'r targed hwn a datgloi uchelgais Cymru o adferiad sy'n gyfiawn yn gymdeithasol ac yn economaidd. Er na dderbyniwyd cynigion penodol gennym yn ymwneud â seilwaith digidol, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn bod cyflymu buddsoddiad mewn seilwaith digidol yn hanfodol i wireddu ein hymrwymiad cyfunol o greu lleoedd a galluogi pob cymuned ledled Cymru i ffynnu.

Gan fod mwy o bobl yn gweithio gartref, ceir cyfle gwirioneddol i ailgysylltu pobl â'u cymunedau a chanol eu trefi. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn croesawu Adduned Siarter Creu Lleoedd Cymru[43] a chynnig cymdogaeth 20 munud Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.[44] Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i gynyddu buddsoddiad mewn canol trefi lleol, gan gynnwys darparu gwell mynediad at fannau agored a chreu canolfannau gweithio o bell.[45]

## Beth sydd angen digwydd – Cyfleoedd i'r Adferiad Gwyrdd wrth ailddychmygu ein hardaloedd trefol

Rydym wedi derbyn nifer sylweddol o gynigion sy'n ymwneud ag adfer natur a mannau gwyrdd mewn ardaloedd trefol ledled Cymru. Chwaraeodd mynediad at barciau lleol ran sylweddol o ran cynorthwyo llesiant corfforol a meddyliol llawer o bobl trwy gyfyngiadau symud Covid-19, gan roi lle iddynt fwynhau'r awyr agored ac ailgysylltu â natur. Fodd bynnag, mae mynediad at fannau gwyrdd yn anghyson iawn ledled Cymru, a dangosodd Mynegai Mannau Gwyrdd 2020[46] fod bron i chwarter miliwn o bobl yng Nghymru yn byw mwy na 10 munud ar droed o barc neu fan gwyrdd.

Cydnabyddir goresgyn y bwlch o ran y ddarpariaeth o fannau gwyrdd mewn cynnig gan Meysydd Chwarae Cymru, sy'n canolbwyntio ar sefydlu tri pharc newydd mewn ardaloedd

[43] Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru, Siarter Creu Lleoedd, 23 Medi 2020

[44] https://www.futuregenerations.wales/cy/news/wythnos-hinsawdd-sut-y-gall-cymdogaethau-20-munud-ein-helpu-i-frwydro-yn-erbyn-yr-argyfwng-hinsawdd-ac-achub-ein-trefi-an-dinasoedd/

[45] Llywodraeth Cymru, 'Ail-greu ar ôl COVID-19: yr heriau a'r blaenoriaethau', 7 Hydref 2020

[46] http://www.fieldsintrust.org/green-space-index

o amddifadedd yng Nghaerdydd, Casnewydd a Chastell-nedd Port Talbot. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn bod gan y cynnig hwn rinweddau gwirioneddol a bydd yn defnyddio ei rym trefnu cyfarfodydd i ddod â'r awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus perthnasol ynghyd i'w drafod yn fwy manwl. Os oes awydd bwrw ymlaen â hyn yn y gymuned leol, bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cefnogi datblygiad yr achos busnes.

Rhan o'r broblem yn unig y mae cynyddu'r mannau gwyrdd sydd ar gael mewn ardaloedd o amddifadedd yn mynd i'r afael â hi. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod bod mannau gwyrdd presennol yn aml yn cael eu tanddefnyddio gan nad ystyrir bod yr ardaloedd yn ddiogel neu o ansawdd da. Ceir rhai enghreifftiau gwrych lle mae cymunedau wedi bod yn rhan o wella mannau gwyrdd ar draws eu hystadau tai fel Cartrefi Conwy ar ystadau Parc Peulwys a Thre Cwm. Mae cynnig gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn amlygu sut y gellid ymestyn dull Cartrefi Conwy i ardaloedd tai cymdeithasol eraill ledled Cymru. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cefnogi'r cynnig a bydd yn gweithio i dargedu'r gweithgarwch hwn at y cymunedau ac ardaloedd hynny y mae Covid-19 wedi effeithio arnynt fwyaf.

Mae nifer o gynigion yn dangos ymrwymiad gwirioneddol i adfer mannau gwyrdd sydd wedi'u hesgeuluso ar garreg drws cymunedau, gan eu trawsnewid yn fannau tyfu bwyd, yn berllannau cymunedol, yn erddi peillwyr ac yn fannau coetir cymunedol. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod pwysigrwydd adfer a gwella 'natur ar garreg eich drws' fel cyfraniad pwysig at wrthdroi dirywiad natur yn ogystal â chysylltu pobl â natur a'r manteision sy'n deillio o hyn i lesiant corfforol a meddyliol unigolion. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cefnogi'r cynigion hyn a bydd yn ystyried a ydynt yn cyd-fynd â rhaglen bresennol Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Os nad ydynt, bydd y Grŵp yn darparu cymorth i ddatblygu achosion busnes i'w cyflwyno i arianwyr eraill yn y misoedd nesaf. Mae'r Grŵp o'r farn bod cyllid hirdymor yn hanfodol i sicrhau bod mannau gwyrdd bioamrywiol yn parhau i gael eu creu a'u meithrin yn ein cymunedau. Mae seilwaith gwyrdd, a choed yn arbennig, yn chwarae rhan bwysig yn ein trefi a'n dinasoedd, gan ddarparu cysgod, glanhau ein haer, dal carbon a chefnogi bioamrywiaeth.[47] Mae gorchudd coed mewn ardaloedd o amddifadedd yng Nghymru yn tueddu i fod yn is ac yn gymharol lai 'cyfoethog'. Bydd nifer o gyflwyniadau a nodir yn adran 4.3 yn cynorthwyo'r broses o blannu coed yn ein hardaloedd trefol ac am y rheswm hwn fe'u cefnogir gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Derbyniodd y Grŵp gynigion hefyd a oedd yn cynnwys codi ardaloedd presennol i gerddwyr a'u disodli â dolydd blodau gwyllt a choed. Er y bydd materion hygyrchedd i'w hystyried, bydd integreiddio'r syniadau mwy radical hyn mewn cynigion ehangach sy'n cynnwys, er enghraifft, cynlluniau draenio trefol cynaliadwy yn cynnig buddion lluosog i natur a chymunedau.

[47] 'Trees for Cities: 10 reasons we need to plant more', Ionawr 2020

## Sut y caiff y gwaith hwn ei ddatblygu – Cyfleoedd i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ar gyfer natur, datgarboneiddio a'r economi gylchol

Mae adeiladu lle ar gyfer natur yn ôl i'n tirwedd drefol yn cynnig buddion sylweddol i iechyd a llesiant unigolion a chymunedau, datgarboneiddio ac addasiadau hinsawdd, yn ogystal â'r economi gylchol, fel y cydnabyddir gan ddull Polisi Cynllunio Cymru 10.[48]

Bydd y gwaith o ddylunio unrhyw gynlluniau newydd yn gofyn am ystyriaeth ofalus i sicrhau bod cymaint o fuddion â phosibl i bobl a natur yn ogystal â chynyddu cydnerthedd y gymuned yn erbyn llifogydd a thywydd poeth yn y dyfodol trwy gynnwys opsiynau fel Systemau Draenio Cynaliadwy neu blannu coed sy'n cynnig cysgod. Ceir llawer o gyfleoedd economi gylchol hefyd, yn enwedig wrth edrych ar y deunyddiau a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r gwelliannau. I gyflymu'r newidiadau, bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn dod â dylunwyr, penseiri tirwedd a chynllunwyr tref sy'n gweithredu yng Nghymru ynghyd i sicrhau bod y cynigion yr ydym wedi eu derbyn yn llywio buddsoddiad mewn ardaloedd trefol ledled Cymru yn y dyfodol.

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sefydlu canolfannau gweithio o bell. Mae'r Grŵp o'r farn bod cyfle gwirioneddol i ddangos sut mae camau i ailosod ac addasu adeiladau at ddibenion gwahanol yn sicrhau cyfraniad mor fawr â phosibl at yr adferiad gwyrdd trwy gynnwys lle ar gyfer natur, ôl-osod technolegau effeithlonrwydd ynni a dŵr, a defnyddio deunyddiau eildro a dodrefn wedi'u hailweithgynhyrchu yr ydym yn eu cynhyrchu yma yng Nghymru.

Tabl 10: Ailddychmygu ein hardaloedd trefol gyda natur a mannau gwyrdd yn ganolog iddynt

| Sgôr | Sefydliad | Enw'r cynnig | Lleihau allyriadau carbon a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd | Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth | Economi gylchol | Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19 | Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol | Coridorau peillio | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 1 | Fields in Trust | Galluogi Adferiad Gwyrdd Parhaol i Gymru | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 1 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Tai cymdeithasol gwyrdd | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |

[48] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/adeiladu-lleoedd-gwell-y-system-gynllunio-yn-sicrhau-dyfodol-cydnerth-a-mwy-disglair.pdf

| Sgôr | Sefydliad | Enw'r cynnig | Lleihau allyriadau carbon a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd | Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth | Economi gylchol | Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19 | Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Partneriaethau natur lleol | Parc Hanes Creu seilwaith gwyrdd, Bae Cinmel | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Halen Mon | Adferiad gwyrdd gan greu strydoedd blodeuol | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru | Seilwaith gwyrdd - Tyfu'n ôl yn well | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |

## Teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy

Mae annog pobl allan o'u ceir i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, beicio a cherdded yn ddaliad canolog yn agenda ddatgarboneiddio Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu fframwaith deddfwriaethol ac wedi ymrwymo buddsoddiad sylweddol i deithio llesol. Ymrwymwyd arian ychwanegol ers dechrau'r cyfyngiadau symud, a gwnaed £38 miliwn arall ar gael ym mis Gorffennaf 2020 i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu seilwaith cerdded a beicio diogel. Cafwyd buddsoddiad sylweddol hefyd i wella trafnidiaeth gyhoeddus, wrth i Trafnidiaeth i Gymru arwain lawer o'r agenda uchelgeisiol honno, er bod y pandemig yn cyflwyno heriau sylweddol i ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn y byrdymor uniongyrchol.

Yn unol â chanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol, mae awdurdodau lleol wedi treulio amser sylweddol yn canolbwyntio ar ddatblygu rhwydweithiau o lwybrau cerdded a beicio yn cysylltu ein cymunedau â lleoedd gwaith a dysgu, siopau, a darpariaeth gofal iechyd. Yn ystod y cyfyngiadau symud, mae llawer o bobl wedi ailgysylltu â natur a'u hardal leol a cheir cyfle gwirioneddol i adeiladu ar y momentwm hwn i ddatblygu llwybrau cerdded a beicio sy'n cysylltu pobl â'r natur ar garreg eu drws. Mae'r Grŵp yn cydnabod bod mabwysiadu dull o'r fath yn mynd y tu hwnt i'r diffiniad presennol o deithio llesol a nodir yn y canllawiau,[49] ond maent o'r farn bod buddion sylweddol i iechyd a llesiant unigolion a chymunedau trwy fabwysiadu diffiniad ehangach o deithio llesol sy'n cyd-fynd â fframio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn y dylai pob

[49] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-02/drafft-canllawiau-teithio-llesol.pdf

llwybr teithio llesol newydd ac wedi'i uwchraddio gydymffurfio â chanllawiau[50] ar fynediad cyfartal.

## Beth sydd angen digwydd – Cyfleoedd i'r Adferiad Gwyrdd o ran teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy

Rydym wedi derbyn nifer o gynigion teithio llesol, y mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod y gallent eisoes fod yn rhan o fapiau rhwydwaith integredig presennol awdurdodau lleol neu y gallent ategu'r cynlluniau hyn. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol perthnasol i archwilio'r ffordd orau o fwrw ymlaen â'r cynigion hyn.

Mae dau gynnig o'r gogledd-orllewin a'r canolbarth yn canolbwyntio ar greu llwybrau teithio llesol newydd. Byddai'r cyntaf, yn Ynys Môn, yn cysylltu Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, safleoedd hanesyddol eraill a Llwybr Arfordir Cymru yn llwybrau cylchol amlddefnydd, gan gysylltu cymunedau ar draws yr ynys. Mae'r ail gynnig yn cysylltu Biosffer Dyfi â threfi a phentrefi lleol yn yr ardal honno. Yn ogystal â gwella llesiant corfforol a meddyliol y gymuned leol, bydd y cynigion hyn hefyd yn gatalydd ar gyfer twf y tu hwnt i safleoedd pot mêl llwybr yr arfordir a Biosffer Dyfi. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cefnogi yn gryf ddatblygiad pellach y cynigion hyn yn achosion busnes cadarn, gan gynnwys ystyriaeth benodol o gostau cynnal a chadw parhaus.

Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eisoes yn datblygu amrywiaeth o fentrau ar gyfer ehangu cerbydau trydan ledled Cymru. Mae nifer o gyflwyniadau yn ymwneud â datblygu cyfleusterau gwefru cerbydau trydan, â phwyslais penodol ar ardaloedd gwledig. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod bod rhai cynigion diddorol ar gyfer lleoli pwyntiau gwefru mewn eglwysi/capeli ac adeiladau amlwg eraill ar draws ein cymunedau yng Nghymru, gan sicrhau bod y seilwaith ychwanegol hwn yn dod yn rhan o gymunedau lleol ac yn cael ei integreiddio ynddynt. Mae aelodau o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen eisoes wedi dechrau gweithio gydag awdurdodau lleol i weld a yw'r cynigion hyn yn cyd-fynd â chynlluniau a rhaglenni presennol i sicrhau bod unrhyw gynigion yn cael eu datblygu mewn ffordd gydgysylltiedig.

Mae rhai cynigion yn ymwneud â rheoli trafnidiaeth, a cheir awgrymiadau ar gyfer cynlluniau parcio a theithio o gwmpas Pontydd Menai yn ogystal â mesurau i wella'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus trwy, er enghraifft, welliannau i gyfleusterau gorsafoedd rheilffordd a chymhellion ariannol i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus – fel teithio am ddim i bobl ifanc. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cyfarfod â Thrafnidiaeth i Gymru i drafod y cynigion hyn a'r cyfleoedd i'w cynnwys yn eu cynlluniau yn y dyfodol.
Roedd tagfeydd a phroblemau parcio yn ein Parciau Cenedlaethol a'n Hardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol i'w gweld cyn ac ar ôl cyflwyno'r cyfyngiadau symud. Creodd y mewnlifiad o ymwelwyr bwysau sylweddol ar seilwaith lleol wrth i feysydd parcio gael eu gorlenwi a pharcio anghyfreithlon atal mynediad at ffyrdd i'r gymuned leol. Parhaodd y patrwm hwn drwy'r haf a bu'n rhaid i'r Parciau Cenedlaethol, awdurdodau lleol a'r heddlu neilltuo adnoddau sylweddol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cyfyngiadau a gorfodi

[50] https://cdn.naturalresources.wales/media/684056/nc004-trwy-bob-dull-rhesymol-mynediad-lleiaf-rhwystrol-ir-awyr-agored.pdf

cyfreithiau parcio yn fwy llym. Hefyd, cymharol brin yw’r cyfraniad y mae’r model twristiaeth hwn yn ei wneud at yr economi leol. Mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol dod o hyd i well ffyrdd o reoli’r mewnlifiad o ymwelwyr, fel ei fod yn gynaliadwy ac yn ychwanegu gwerth at gymunedau lleol.

Mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi cyflwyno cynnig sy’n cyflwyno cynllun trafnidiaeth integredig ar gyfer y parc. Mae gwaith ar y gweill rhwng y Parc Cenedlaethol a Chyngor Gwynedd i nodi a datblygu modelau mwy cynaliadwy, gan fanteisio ar arfer da o wledydd eraill fel Awstria. Mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o’r farn bod rhinweddau gwirioneddol i’r cynnig hwn ac y dylai fod yn flaenoriaeth uniongyrchol ar gyfer buddsoddiad. Mae’r dull sy’n cael ei ddatblygu yn Eryri yn debygol o fod â defnydd llawer ehangach mewn lleoliadau eraill ledled Cymru.

## Sut y caiff y gwaith hwn ei ddatblygu – Cyfleoedd i sicrhau’r cyfraniad mwyaf posibl ar gyfer natur, datgarboneiddio a’r economi gylchol

Mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o’r farn y dylai pob llwybr teithio llesol ddod yn llwybr ar gyfer natur cyn belled ag y bo hynny’n ymarferol, yn enwedig peillwyr. Ar y cam dylunio a chynllunio, mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o’r farn bod angen ystyriaeth ofalus o’r cyfleoedd i gynnwys Draenio Trefol Cynaliadwy a phlannu coed, gwrychoedd a blodau gwyllt ar hyd y llwybrau, a fydd yn sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i beillwyr. Bydd hefyd yn bwysig ystyried y cyfleoedd ar gyfer cyfnewid deunyddiau carbon is wrth adeiladu’r llwybrau hyn. Bydd edrych ar y llwybrau ar draws tref neu ddinas hefyd yn bwysig i greu’r cysylltedd rhwng mannau gwyrdd a’r cysylltiad â chefn gwlad ehangach, gan gyfrannu at welliannau i ansawdd aer â manteision lluosog mynediad at yr awyr agored ar gyfer iechyd corfforol a llesiant meddwl.

Tabl 11: Teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy

| Sgôr | Sefydliad | Enw'r cynnig | Lleihau allyriadau carbon a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd | Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth | Economi gylchol | Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19 | Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Halen Mon | Newidiadau parcio yn Eryri | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 1 | Halen Mon | Llwybr werdd trwy Ynys Môn | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 1 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cylch amlbwrpas a llwybr troed rhwng Borth, Ynyslas a Dyfi NNR sy'n gysylltiedig â chyfleoedd lleol iechyd a lles fel rhan o Biosffer Dyfi. | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 1 | Parc Genedlaethol Eryri | Dylunio a gweithredu dull trafnidiaeth gynaliadwy integredig | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 1 | Cenedlaethau Dyfodol Cymru | Buddsoddi mewn ffyrdd gwell i gysylltu a symud pobl; drwy ddarparu cymhellion i annog pobl yn ôl ar drafnidiaeth gyhoeddus a buddsoddi mewn seilwaith teithio llesol | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Unigolyn | Cysylltiadau trydan | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Unigolyn | Cydweithfa ar dâl gwyrdd | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Llwybrau Beicio a Cherdded Sir Ddinbych | Llwybrau beicio a cherdded | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Going Green for a Living CLT Ltd | Clybiau Ceir Cerbydau Trydan (yn gysylltiedig â Phwyntiau Gwefru) | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Halen Mon | Ymestyn Parcio a Theithio ger Pontydd Menai yn Ynys Môn | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cardi Bach – Hendy-gwyn ar Daf i Lwybr Beicio Aberteifi | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cymru o dan ganopi coed | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Trawsnewid llwybr rheilffordd segur yn lwybrau cerdded a llwybrau beicio | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Buddsoddi yn ein gorsafoedd rheilffordd | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Gwefru Beiciau Trydan Oddi ar y Grid | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |

## Yr Economi Gylchol

Gan adeiladu ar berfformiad o'r radd flaenaf Cymru o ran ailgylchu, lansiodd Llywodraeth Cymru yr ymgynghoriad 'Mwy nag ailgylchu, strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti' ym mis Rhagfyr 2019. Mae'r ymgynghoriad yn cydnabod bod cadw deunyddiau mewn cylchrediad am gyhyd â phosibl ac osgoi gwastraff yn bwysig i gynyddu cadernid economaidd a gwneud Cymru yn ddi-garbon net erbyn 2050. Gwnaed cyfanswm o £39.7 miliwn mewn cyllid grant ar gael gan Lywodraeth Cymru i hwyluso newid â £6.5 miliwn yn y ffrwd fusnes, £20 miliwn i gyrff a ariennir yn gyhoeddus a £13.2 miliwn i atgyweirio ac ailddefnyddio canol trefi a chymunedau.[51]

## Beth sydd angen digwydd – Cyfleodd i'r Adferiad Gwyrdd yn yr economi gylchol

Mae llawer o'r cynigion a gyflwynwyd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn mynd i'r afael â'r problemau sylfaenol o lefelau cynhyrchu a defnydd anghynaliadwy trwy gadw adnoddau mewn defnydd am gyhyd â phosibl, osgoi gwastraff, a symud i opsiynau amgen mwy cynaliadwy. Mae hyn yn arbennig o gryf yn y cynigion yn ymwneud â bwyd, tai a datblygu sgiliau. Yn ein hasesiad o'r holl gynigion, rydym wedi amlygu'r cyfleoedd i gynyddu'r pwyslais a mynd i'r afael â lefelau cynhyrchu a defnydd anghynaliadwy wrth ddylunio a gweithredu pob cynnig.

Mae tri chynnig yn ymwneud ag ymestyn gweithgareddau atgyweirio/ailddefnyddio, a allai ategu mentrau awdurdod lleol presennol neu raglenni sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau fel Ministry of Furniture ym Maglan. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ystyried y synergeddau a naill ai'n cyfeirio at raglenni cyllid presennol Llywodraeth Cymru neu'n darparu cymorth i gydgrynhoi yn un rhaglen waith o bosibl.

Ceir cyfleoedd sylweddol i ychwanegu gwerth at bren Cymru, i ehangu neu greu marchnadoedd newydd. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn croesawu dau gynnig yn ymwneud â'r defnydd o bren ym maes adeiladu, trwy ehangu'r farchnad fframiau pren. Mae hwn yn gyfle sylweddol i sector coedwigaeth Cymru, gan greu marchnadoedd newydd ar gyfer cynhyrchion pren gwerth uchel yn ogystal â darparu ffordd o gloi carbon i mewn, i leihau'r defnydd o ddeunyddiau carbon uchel eraill wrth adeiladu, fel sment. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod y potensial sylweddol yn y cynigion hyn a bydd yn darparu cymorth i ddatblygu'r achosion busnes i gyflymu cynnydd.

Hefyd yn y sector coedwigaeth, rydym wedi derbyn un cynnig sy'n ymwneud â buddsoddi yn natblygiad meithrinfa goed. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod pwysigrwydd tyfu'r farchnad hon yng Nghymru, gan y bydd cyflenwad dibynadwy o goed ifanc yn allweddol i ehangu gwaith plannu coed. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gweld gwerth y cynnig hwn ond yn cydnabod bod angen sicrhau cydsyniadau ychwanegol. I symud i'r cam nesaf, bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cysylltu â'r cynigydd i ystyried a oes angen cymorth ychwanegol i ddatblygu achos busnes o hyd.

Y defnydd o wlân fel deunydd inswleiddio wrth adeiladu yw canolbwynt un cynnig. Mae hwn yn syniad sefydledig sydd wedi methu â symud y tu hwnt i gynnyrch arbenigol hyd

[51] https://llyw.cymru/ail-greu-ar-ol-y-coronafeirws-yr-heriau-ar-blaenoriaethau-html

yma. O ystyried y dirywiad sylweddol i bris gwlân a gynhyrchir gan ffermwyr Cymru, ceir angen gwirioneddol i greu marchnadoedd newydd i'r cynnyrch hwn. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn bod potensial gwirioneddol o edrych ar fecanwaith Cronfa Her i ysgogi arloesedd yn y maes hwn, i greu defnyddiau a marchnadoedd newydd ar gyfer y prif gynnyrch hwn ym maes ffermio Cymru.

Tabl 12: Economi gylchol

| **Sgôr** | **Sefydliad** | **Enw'r cynnig** | **Lleihau allyriadau carbon a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd** | **Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth** | **Economi gylchol** | **Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19** | **Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Marine Conservation Society | "A reusable start to life!" | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 1 | Going Green for a Living CLT Ltd | Ailgylchu Maetholion - Canolfannau Biomas Integredig | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 1 | Going Green for a Living CLT Ltd | Rhwydwaith Masnachu Ailddefnyddio ac Atgyweirio Cymru | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 1 | Cadw Gymru'n Daclus | Prentisiaethau Trwsio | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |

## Twristiaeth

Mae twristiaeth yn rhan bwysig o economi Cymru, a chyflogir 9%[52] o'r gweithlu yn y sector. Mae amgylchedd naturiol Cymru – ein cefn gwlad a'n harfordir, ein mynyddoedd a'n dyfroedd mewndirol – yn cynnig amgylcheddau eithriadol ar gyfer gweithgareddau awyr agored ac maent yn rheswm canolog pam mae llawer o bobl yn dewis dod ar wyliau i Gymru.

Trwy gydol haf a hydref 2020, dewisodd llawer o bobl aros yn y DU i fynd ar wyliau. Gwnaeth Cymru elwa o hyn wrth i dwristiaid heidio i draethau a thirweddau mynyddig Cymru, â llawer o sefydliadau gwely a brecwast a meysydd gwersylla yn llawn trwy fisoedd yr haf a'r hydref. Arweiniodd y broses o greu lle i'r mewnlifiad hwn at bwysau mewn rhai cymunedau, wrth i wasanaethau gael eu gorlethu a chynnydd i wersylla anghyfreithlon ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

[52] Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020 i 2025, Llywodraeth Cymru

## Beth sydd angen digwydd – Cyfleoedd i’r Adferiad Gwyrdd ym maes twristiaeth

Cymru oedd y rhan gyntaf o’r DU i ddatblygu llwybr o gwmpas ei morlin. Mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o’r farn bod potensial gwirioneddol i ddatblygu brand Llwybr Arfordir Cymru fel agwedd ganolog ar gynnig twristiaeth Cymru ledled y byd. Mae’r Grŵp o’r farn bod angen i Gymru adeiladu ar ei buddsoddiad yn llwybr yr arfordir trwy gryfhau ei gysylltiad â’r gefnwlad, gyda’r llwybr fel catalydd ar gyfer twf a datblygiad. Ceir potensial hefyd i arallgyfeirio defnydd o’r llwybr i’w wneud yn hygyrch i amrywiaeth ehangach o ddefnyddwyr yn debyg iawn i lwybr 500 yr Alban a’r llwybrau eiconig ar Ynys y De Seland Newydd.

Mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi archwilio modelau ariannu amgen ar gyfer bwrw ymlaen â datblygiad Llwybr Arfordir Cymru. Mae trafodaethau cychwynnol â Chanolfan Cydweithredol Cymru yn awgrymu bod cyfle gwirioneddol i ddatblygu model menter gymdeithasol a fyddai’n galluogi sefydliadau, busnesau ac unigolion i gymryd rhan yn uniongyrchol. Mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad y syniad hwn, a bydd yn ceisio cynnwys Trafnidiaeth i Gymru, awdurdodau lleol a Pharciau Cenedlaethol i drafod y cyfleoedd posibl.

Mae adran 5.4 yn nodi ymrwymiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu llwybrau teithio llesol newydd yn Ynys Môn a’r canolbarth. Mae’r Grŵp o’r farn y gellid ymestyn y dull hwn i ardaloedd eraill ledled Cymru i greu cynnig twristiaeth natur a threftadaeth cyffrous yng Nghymru wedi’i ddarparu gan amrywiaeth o sefydliadau sy’n berchen ar safleoedd neu’n eu rheoli yn gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys, er enghraifft, Cyfoeth Naturiol Cymru, y trydydd sector amgylcheddol, Cadw, yr Eglwys yng Nghymru ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gweithio gyda Croeso Cymru a’r grwpiau twristiaeth rhanbarthol i archwilio’r cyfle hwn a sut y gellir gwella amgylchedd Cymru fel elfen ganolog o’n cynnig twristiaeth rhyngwladol.

Cydnabyddir effaith twristiaeth ar amwynderau a gwasanaethau lleol mewn cynnig ar gyfer ardoll ymwelwyr. Mae dod o hyd i ffyrdd amgen o alluogi ailfuddsoddiad yn y seilwaith cymdeithasol ac amgylcheddol sy’n cefnogi twristiaeth ledled Cymru yn hanfodol. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn darparu cymorth fel y gellir datblygu a phrofi’r cynnig hwn yn fwy manwl. Ceir cyfleoedd hefyd i ddatblygu cyfleusterau meysydd pebyll a charafanau newydd ac mae un cynnig yn awgrymu datblygu ‘aires’ o’r math Ffrengig ar gyfer cartrefi modur. Bydd y Grŵp yn archwilio’r cynnig hwn gyda Croeso Cymru ac awdurdodau lleol.

## Sut y caiff y gwaith hwn ei ddatblygu – cyfleoedd i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ar gyfer natur, datgarboneiddio a'r economi gylchol

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod nad yw buddion economaidd twristiaeth yn adlewyrchu'r effeithiau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach yn llawn, yn enwedig yn rhai o'n tirweddau a chyrchfannau twristiaeth eiconig ledled Cymru. Mae lleddfu rhywfaint o'r pwysau ar ein cymunedau a'n hamgylchedd yn gofyn am ddull mwy cydweithredol a chydgysylltiedig, gan weithio ar draws ffiniau sefydliadol i roi sylw i fanteision cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol twristiaeth, a sicrhau eu bod mor fawr â phosibl, i dwristiaid a'r cymunedau sy'n eu croesawu. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn bod angen dull mwy integredig i ystyried cynllunio twristiaeth ar raddfa ranbarthol fwy strategol ac yn annog Croeso Cymru i ddatblygu dull twristiaeth sydd wedi'i gydgysylltu'n fwy ar lefel ofodol ac sy'n adlewyrchu materion a blaenoriaethau lleol.

Tabl 13: Twristiaeth

| Sgôr | Sefydliad | Enw'r cynnig | Lleihau allyriadau carbon a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd | Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth | Economi gylchol | Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19 | Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cadw Gymru'n Daclus | Ardoll ymwelwyr | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Croesawu seilwaith ymwelwyr i ffwrdd o fannau poblogaeth | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |

# Tai

Bydd swyddi yn cael creu trwy adeiladu tai newydd a thrwy wella'r stoc dai bresennol yn arbennig.[53] Nod adferiad gwyrdd yw cysylltu hyfforddiant, datblygiad sgiliau, cyflogaeth leol a chadwyni cyflenwi â datgarboneiddio, yr economi gylchol a gwella natur. Ceir cyfle unigryw i ddod â chwe dimensiwn hyn yr adferiad gwyrdd ynghyd yn y ffordd y mae Cymru yn trefnu buddsoddiad mewn tai yn y dyfodol.

[53] 'A UK investment strategy: Building back a resilient and sustainable economy', Adroddiad Vivid Economics o fis Mehefin 2020

Mae cynllun datgarboneiddio Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei hymrwymiad i weld tai cymdeithasol yn dod yn garbon niwtral erbyn 2050. Mae ôl-osod mesurau effeithlonrwydd yn elfen ganolog o'r cynllun hwn.

## Beth sydd angen digwydd – Cyfleoedd i'r Adferiad Gwyrdd ym maes tai

Rydym wedi derbyn pum cynnig yn ymwneud â thai cymdeithasol gan sefydliadau trydydd sector a thai cymdeithasol. Ceir rhinweddau i bob un o'r cynigion, gan gydnabod bod ôl-osod yn lleihau defnydd o ynni yn ogystal â chyfrannu at iechyd a llesiant y preswylwyr ac mae'n fesur gwrthdlodi sylweddol wrth i filiau ynni ostwng. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cefnogi datblygiad pellach y cynigion hyn yn achosion busnes llawn ac ochr yn ochr â hyn yn archwilio llwybrau ariannu i weithrediad llwybr carlam.

Wrth fwrw ymlaen ag ôl-osod tai cymdeithasol, gallai awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig chwarae rhan hollbwysig o ran trefnu'r gwaith o ôl-osod eu stoc eu hunain yn ogystal â chydgysylltu â hyfforddiant lleol, cadwyni cyflenwi a mentrau cyflogaeth i sicrhau'r budd mwyaf posibl i economïau lleol. Cynigiwyd model amgen ar gyfer darparu a chydgysylltu, gan gynnwys BBaChau a mentrau cymdeithasol. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn ei bod yn werth archwilio'r cynnig hwn ymhellach a bydd yn cefnogi datblygiad yr achos busnes.

Mae ariannu gwaith ôl-osod mewn tai sy'n eiddo preifat yn fwy cymhleth oherwydd oed y stoc ac, i'r eiddo hynny sy'n cael eu rhentu, incwm isel llawer o feddianwyr. Mae dau gyflwyniad yn awgrymu ffyrdd newydd o gyflawni gwaith ôl-osod yn y sector rhentu preifat. Mae'r cyntaf yn cynnwys grant atodol a ad-delir trwy'r dreth gyngor ac mae'r ail yn ymwneud â chaffael eiddo gwag, sy'n cael eu rhentu mewn menter gydweithredol ar ôl i'r gwaith gael ei wneud. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cefnogi gwaith pellach i archwilio a phrofi'r syniadau hyn gan eu bod o bosibl yn cymell landlordiaid preifat i gymryd camau. Cydnabyddir swyddogaeth adeiladu tai i ysgogi'r agenda ddatgarboneiddio ar draws y sector tai cymunedol, gan gynnwys gan Housing for all Cymru, Shelter Cymru, y Sefydliad Tai Siartredig a llawer mwy.

Mae cynnig gan Cartrefi Cymunedol Cymru yn cyflwyno'r achos dros fuddsoddi mewn cartrefi newydd i ysgogi'r agenda ddatgarboneiddio yng Nghymru, gan wneud y cysylltiad bod buddsoddiad mewn cartrefi newydd yn ganolog i'r economi sylfaenol gan y bydd yn creu swyddi, mae'n fesur cyfiawnder cymdeithasol, ac mae'n mynd i'r afael ag anghenion y miloedd sydd ar restrau aros ledled Cymru. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cymeradwyo'r cynnig hwn yn gryf, gan danlinellu'r angen a'r flaenoriaeth am gartrefi newydd fforddiadwy yn ardaloedd gwledig a threfol Cymru.

## Sut y caiff y gwaith hwn ei ddatblygu – cyfleoedd i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ar gyfer natur, datgarboneiddio a'r economi gylchol

Ceir cyfleoedd sylweddol iawn o ran sut y gall ôl-osod ac adeiladu tai newydd gael eu datblygu i ddarpariaeth i greu buddion ehangach i natur a chymunedau. Bydd cynnwys cymunedau a thynnu arbenigwyr eraill fel penseiri tirwedd a dylunwyr gerddi i mewn yn sicrhau cymaint o gyfleodd â phosibl i wella mannau gwyrdd trwy blannu coed, creu dolydd blodau gwyllt, a chreu mannau i eistedd, rhandiroedd a mannau chwarae a fydd o fudd i natur ond sydd hefyd â budd sylweddol i lesiant corfforol a meddyliol y gymuned.

Ceir cyfleoedd sylweddol hefyd i ysgogi marchnadoedd newydd o ran deunyddiau adeiladu ac ystyrir tri chynnig yn nhabl 14.

Tabl 14: Tai

| Sgôr | Sefydliad | Enw'r cynnig | Lleihau allyriadau carbon a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd | Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth | Economi gylchol | Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19 | Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cartrefi Cymunedol Cymru | Buddsoddi yn sgiliau a chartrefi'r dyfodol i sicrhau adferiad economaidd gwyrdd | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 1 | Canolfan Cydweithredol Cymru | Adeiladu'n Well - Cefnogi Busnesau Bach a Mentrau Cymdeithasol i Ôl-ffitio cartrefi | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 1 | Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol | Cefnogi datgarboneiddio cartrefi, drwy adeiladu tai carbon isel, fforddiadwy | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 1 | Woodknowledge Wales | 'Home Grown Homes 2' | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 1 | Ty Pren | Chwyldro adeiladu gwyrdd | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 1 | Going Green for a Living CLT Ltd | Ôl-ffitio Tai - Model Cydweithredol ar gyfer y Sector Preifat | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |

| Sgôr | Sefydliad | Enw’r cynnig | Lleihau allyriadau carbon a chynyddu’r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd | Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth | Economi gylchol | Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19 | Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Ynni Cymunedol Cymru | Energy housing retrofit booster | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Gwneud mwy o ddefnydd o wlân fel deunydd inswleiddio | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu |
| 2 | Unigolyn | Gwneud tai yn addas ar gyfer yr 21ain ganrif | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | Llais y Goedwig | Tô Gwyrdd/Ecological Housing | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |

## Iechyd a Llesiant

Ac eithrio ei ganlyniadau cymdeithasol ac economaidd sylweddol, argyfwng iechyd y cyhoedd yw Covid-19 yn y pen draw.

Mae tystiolaeth sy’n dod i’r amlwg yn awgrymu bod mwy o achosion o Covid-19 ymhlith grwpiau a chymunedau agored i niwed,[54] sy’n adlewyrchu anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ac iechyd sylfaenol.

Ni ddylai hyn fod yn syndod gan fod ardaloedd incwm isel nid yn unig yn dioddef o broblemau yn gysylltiedig â thai gwael, cyrhaeddiad addysgol is a deiet gwael, ond hefyd llai o fynediad at fannau gwyrdd o ansawdd da, y mae pob un ohonynt yn cyfrannu at iechyd gwael. Yr hwyaf y mae pobl yn byw mewn amgylchiadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol sy’n achosi straen, y mwyaf yw’r effeithiau ffisiolegol a seicolegol y maent yn eu dioddef, a’r lleiaf tebygol y maent o fwynhau henoed iach.[55] Mae’r anfanteision hyn yn tueddu i grynhoi ymhlith yr un bobl, ac mae’r effeithiau ar iechyd yn gronnol. Amcangyfrifir bod anghydraddoldebau iechyd yn costio £1.8–£1.9 biliwn i economi Cymru o ran colledion cynhyrchiant ac £1.1–£1.8 biliwn mewn costau lles y flwyddyn.[56]

[54] https://llyw.cymru/ail-greu-ar-ol-y-coronafeirws-yr-heriau-ar-blaenoriaethau-html
[55] Cyfoeth Naturiol Cymru, 2020. https://cyfoethnaturiolcymru.sharepoint.com/teams/are/hw/hia/HIA%20Repository/Env&Health%20Covid%20HIA/FINAL%20version-24-09-2020/Env&COVID%20HIA-Executive%20Summary-24-09-2020.pdf
[56] GIG Cymru 2020

## Beth sydd angen digwydd – Cyfleoedd i Adferiad Gwyrdd o ran iechyd a llesiant

Mae llawer o'r cynigion a gyflwynwyd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn mynd i'r afael â materion sylfaenol anghydraddoldeb iechyd gyda'r pwyslais ar fwyd, datblygiad sgiliau a chreu swyddi, cyflwr tai gwael, mynediad at fannau gwyrdd o ansawdd da yn ein trefi a'n dinasoedd, a datblygiad llwybrau teithio llesol. Bydd y cynigion hyn, gyda thargedu gofodol gofalus, yn gwneud cyfraniad pwysig at fynd i'r afael â'r problemau sylfaenol sy'n achosi iechyd gwael.

Mae dau gynnig yn ymwneud yn benodol â chynyddu gallu'r sector iechyd i wneud y cysylltiadau rhwng iechyd ataliol a'r argyfyngau natur a hinsawdd. Mae un cynnig yn targedu pobl ifanc trwy raglen hyfforddi a fydd yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i weithwyr proffesiynol y dyfodol yn y sector gofal iechyd i wneud y cysylltiadau rhwng iechyd natur, bwyd a phriddoedd ac iechyd a llesiant unigolion. Mae dangos cysylltiadau a buddion meysydd ymyrraeth polisi eraill, fel teithio llesol, cysylltu â natur a gwirfoddoli ar gyfer llesiant corfforol a meddyliol, hefyd yn bwysig. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod bod hwn yn gynnig sydd wedi'i ddiffinio'n dda ac sy'n barod i gael ei brofi gyda gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r ail gynnig yn canolbwyntio ar weithwyr iechyd proffesiynol presennol a sut y gallant gymryd camau tuag at ragnodi gwyrdd. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod bod hwn yn gynnig sydd wedi'i ddatblygu'n dda â chytundebau ar waith i brofi gyda dau fwrdd iechyd. Mae'r Grŵp yn edrych ymlaen at weld canlyniad y cyfnod profi hwn a'r camau nesaf arfaethedig.

Cydnabyddir y cysylltiad rhwng natur ac iechyd yn eglur mewn dau gynnig yn ymwneud â Gwasanaeth Iechyd 'Naturiol' ataliol yng Nghymru, sy'n adeiladu ar bwysigrwydd annog pobl i mewn i natur i wella eu hiechyd a'u llesiant corfforol a meddyliol. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod gwerth y cynigion hyn ac o'r farn, gan fanteisio ar gyfres unedau llwyddiannus Rhwydwaith Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru, bod ffordd o ddatblygu dull mwy integredig. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn dod â'r cynigion ynghyd i ddatblygu'r dull a'r achos busnes.

Trwy Covid-19, rydym wedi gweld marchnad newydd ar gyfer cyfarpar diogelu personol yn cael ei chreu gan y disgwylir i'r cyhoedd wisgo masgiau wyneb ym mhob man cyhoeddus dan do. Er bod rhai pobl yn gwisgo masgiau amldro, mae llawer mwy yn defnyddio masgiau plastig untro sydd i'w ganfod fwyfwy fel sbwriel ar ein strydoedd. Ceir cyfle gwirioneddol i arloesi yn y maes hwn i ddatblygu opsiynau amldro amgen neu, i'r pethau y mae angen iddynt fod yn untro o reidrwydd, sy'n cael eu creu â deunydd ailgylchu. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn y gallai mecanwaith Cronfa Her ysgogi arloesedd yn y maes hwn.

## Sut y caiff y gwaith hwn ei ddatblygu – Cyfleoedd i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ar gyfer natur, datgarboneiddio a'r economi gylchol

Cyn y pandemig, roedd Llywodraeth Cymru, swyddogion y GIG a staff Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydweithio i nodi'r camau penodol y gallai byrddau iechyd ledled Cymru eu cymryd mewn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur a'r

ymdrech i sicrhau economi gylchol. Nid oes amheuaeth bod amrywiaeth eang o gamau y gellir eu cymryd ar draws ystad y byrddau iechyd, fel effeithlonrwydd ynni a dŵr, gwella mannau gwyrdd trwy blannu coed a blodau gwyllt, a chynyddu mynediad cleifion at y mannau hyn trwy gynllunio gofalus. Nid yn unig y bydd y newidiadau hyn yn lleihau'r allyriadau o'r ystad ac yn cynyddu lle ar gyfer bioamrywiaeth, byddant hefyd o bosibl yn arwain at well canlyniadau i gleifion trwy wella hygyrchedd natur a mannau gwyrdd yn uniongyrchol.[57] Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod bod cyflymder y newid yn gwbl ddibynnol ar yr ymateb i'r pandemig ar adferiad yn ei sgil.

Tabl 15: Iechyd a llesiant

| **Sgôr** | **Sefydliad** | **Enw'r cynnig** | **Lleihau allyriadau carbon a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd** | **Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth** | **Economi gylchol** | **Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19** | **Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Grŵp TYF | WISH Wales – 'Wellbeing Innovation for Sustainable Health' | - | - | - | X | X |
| 1 | Grŵp TYF | Ymarferwyr Cenedlaethau'r Dyfodol | - | - | - | - | X |
| 2 | Cadw Gymru'n Daclus | Iechyd Gwyrdd | - | X | - | X | X |
| 2 | RSPB Cymru | Gwasanaeth Iechyn Naturiol i Gymru | X | - | X | X | - |
| 2 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Dewch Allan! Adfywio'r model a'r ffordd o weithio | X | - | - | X | - |

[57] NHS Wales 2020

# 6. Galluogwyr yr adferiad gwyrdd

## Sgiliau, prentisiaethau a chreu swyddi

Mae Covid-19 yn cael effaith ar swyddi a gwasanaethau ledled Cymru. Mae cwmnïau yn cyhoeddi diswyddiadau ac mae hyn yn debygol o gyflymu dros fisoedd y gaeaf. Mae gwaith dadansoddi yn dangos mai'r ifanc sy'n cael eu taro waethaf, gan fod llai o swyddi lefel newydd-ddyfodiaid ar gael i'r rhai 16 a 18 oed ynghyd â graddedigion diweddar. Mae nifer y prentisiaethau hefyd wedi gostwng. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai lleihau diweithdra yw un o'i hwyth prif flaenoriaeth ar gyfer ailadeiladu, gan roi'r cyfle gorau i bawb ddod o hyd i waith gwerth chweil â rhagolygon hirdymor, a'i gadw.[58]

Ceir cyfleoedd gwirioneddol i gefnogi datblygiad prentisiaethau a swyddi newydd drwy'r adferiad gwyrdd, ac mae llawer o gyflwyniadau yn amlygu datblygiad sgiliau a swyddi newydd mewn meysydd fel ôl-osod tai cymdeithasol, Atebion ar Sail Natur a phrentisiaethau ailddefnyddio ac atgyweirio. Mae TUC Cymru[59] yn amcanestyn y gellid creu tua 60,000 o swyddi o ganlyniad i fuddsoddiad gwerth £6 biliwn mewn seilwaith. Mae rhai o'r swyddi hyn yn ymwneud ag Atebion ar Sail Natur, datgarboneiddio a'r economi gylchol.

Mae gwaith sydd ar y gweill gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn ystyried y sgiliau sydd eu hangen i ddarparu'r swyddi gwyrdd hyn yn y dyfodol. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn manteisio ar hwn i lywio datblygiad fframwaith monitro a gwerthuso adferiad gwyrdd.

## Beth sydd angen digwydd – Cyfleoedd i'r Adferiad Gwyrdd o ran datblygu sgiliau, prentisiaethau a chreu swyddi

Cyflwynwyd pum cynnig yn ymwneud yn benodol â datblygu sgiliau trwy brofiad gwaith a gwirfoddoli, gan gynnwys cynnig 'Gwasanaeth Natur Cymru' a gyflwynwyd ar y cyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a'r Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad. Mae'r syniad hwn yn cyd-fynd yn agos iawn â'r awgrym 'Corfflu Cadwraeth' gan Ffenics i'r Strategaeth Adferiad Economaidd, yn adrodd yn ôl i Ken Skates, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru.

Yn y cyfnod ers dechrau mis Medi, daeth aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, dan arweiniad y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad, â'r rhai a gyflwynodd gynigion yn y maes hwn ynghyd i ddatblygu un dull cyfunol, a threfnwyd cyfarfod arall ar gyfer mis Tachwedd. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod y bydd angen ychydig o amser ac egni i ddatblygu'r cynnig hwn, a bydd yr enw terfynol yn deillio o'r broses cyd-ddylunio.

Yn y cyfamser, mae sefydliadau fel Cyfoeth Naturiol Cymru a CGGC yn sefydlu cynlluniau lleoli yn targedu pobl ifanc 16-24 mlwydd oed sydd mewn perygl o ddiweithdra hirdymor. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn bod angen ymrwymo adnoddau i sicrhau bod y cynlluniau lleoli hyn yn llwyddiant yng Nghymru ac yn cynnig profiadau ystyrlon i'r unigolion, gan arwain at swyddi a llwybrau gyrfaol hirdymor.

---

[58] 'Ail-greu ar ôl COVID-19: yr heriau a'r blaenoriaethau', Llywodraeth Cymru, Hydref 2020

[59] https://www.tuc.org.uk/research-analysis/reports/job-creation-wales-infrastructure-investment?lang=cy

Mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o’r farn y dylai Cymru ymrwymo i’r cyflog byw o £9.30 ar gyfer cynlluniau lleoli’r adferiad gwyrdd, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol, gyda’r gwahaniaeth o ran cyflog yn cael ei dalu gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na’r sefydliad sy’n lletya.

## Prentisiaethau

Ceir llawer o gynlluniau prentisiaeth hirsefydlog yng Nghymru. Rydym yn gwybod bod marchnadoedd newydd a fydd angen gweithlu medrus mewn nifer o feysydd fel ôl-osod tai cymdeithasol, ynni adnewyddadwy, rhaglenni teithio llesol, rhaglenni Atebion ar Sail Natur a’r economi gylchol. Mae Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â’r ymgynghoriaeth NEF a’r TUC i ddadansoddi’r naid sydd ei hangen i ddarparu sgiliau i bobl a’u cael yn barod i fanteisio ar y cyfleoedd newydd hyn am swyddi. Mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn croesawu’r gwaith hwn a bydd yn ymrwymo i weithio gyda’r comisiynydd i ystyried pa gamau sydd eu hangen i gynorthwyo datblygiad sgiliau, yn enwedig o ran Atebion ar Sail Natur.

Derbyniodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ddau gynnig yn ymwneud â datblygu colegau addysg uwch newydd yn y canolbarth, y mae’r ddau angen buddsoddiad sylweddol ac y byddai’n cymryd amser i’w gweithredu. Ni chymeradwywyd y cynigion hyn gan y Grŵp gan ein bod o’r farn bod angen iddynt gael eu hystyried yn rhan o adolygiad ehangach gan y llywodraeth o ddarpariaeth addysg drydyddol.

Ceir cyfleoedd eglur i ddatblygu swyddi newydd yn gysylltiedig â’r economi werdd ac mae’n rhaid i gynlluniau prentisiaeth fod yn rhan o’r cymysgedd. Rydym wedi derbyn cynnig ar gyfer cynllun prentisiaeth atgyweirio genedlaethol, y bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ei gefnogi i ddatblygu yn achos busnes llawn. Ceir cynnig hefyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru i annog sefydliadau ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat a’r trydydd sector yng Nghymru i gyflogi pobl sy’n gadael yr ysgol yn rhan o raglen sgiliau gyfannol, wedi’i seilio ar gyllid gan Twf Swyddi Cymru. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn darparu cefnogaeth i fwrw ymlaen â’r cynnig hwn.

I gefnogi datblygiad cynlluniau lleoli, rydym wedi derbyn cynnig gan Cyfoeth Naturiol Cymru sy’n ymwneud â’r ddarpariaeth o ddeunydd dysgu a datblygu penodol i gefnogi dealltwriaeth o natur a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae’r cynnig yn adeiladu ar y cyrsiau a ddyluniwyd ac a ddarparwyd i holl staff Cyfoeth Naturiol Cymru i ymsefydlu ei ddiben i fynd ar drywydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, sy’n cynnwys y dulliau o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn croesawu’r cynnig hwn fel rhywbeth y gellir ei gyflwyno yn gyflym i bawb sydd â diddordeb, â’r costau ychwanegol lleiaf posibl. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud y cwrs ar gael yn rhwydd i ddarpar fyfyrwyr a sefydliadau â diddordeb.

## Sut y caiff y gwaith hwn ei ddatblygu – Cyfleoedd i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ar gyfer natur, datgarboneiddio a'r economi gylchol

Mae sicrhau'r buddion mwyaf posibl yn gysylltiedig â buddsoddiad ym mhob agwedd ar yr adferiad gwyrdd yn ddibynnol ar gamau galluogi ym meysydd sgiliau, prentisiaethau a chaffael. Y rhai sy'n allweddol i wireddu uchelgais y llywodraeth o swyddi gwerth chweil â rhagolygon hirdymor.

Mae'r Grŵp yn cydnabod na ellir gadael datblygu fframweithiau prentisiaeth i gynorthwyo adferiad gwyrdd i'r farchnad yn unig. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn bod angen eglur i ysgogi'r sector addysg bellach i ddiweddaru cyrsiau presennol a datblygu rhai newydd i sicrhau bod gennym weithlu â sgiliau priodol ar gyfer y dyfodol. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gweithio gyda'r Cynghorau Sgiliau a'r Sector Colegau Trydyddol i archwilio cyfleoedd.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo buddsoddiad sylweddol i gynorthwyo'r adferiad ar ôl y pandemig.[60] Ceir cyfle gwirioneddol i fanteisio i'r eithaf ar y buddsoddiad hwn trwy ddefnyddio'r broses gaffael i nodi bod yr holl raglenni buddsoddi newydd a arweinir gan Lywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus, sefydliadau trydydd sector a darparwyr tai cymdeithasol yn cefnogi nifer diffiniedig o gyfleoedd profiad gwaith a phrentisiaeth. Er enghraifft, mae ail-osod mewn tai cymdeithasol yn gofyn am grefftwyr fel trydanwyr, plymwyr, syrfewyr ac adeiladwyr. I sicrhau cymaint o gyfleoedd datblygu sgiliau a chreu swyddi newydd â phosibl, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn y dylai'r holl gontractau ar gyfer ôl-osod mewn tai cymdeithasol gynnwys amod ei bod yn ofynnol i'r cwmni gynnig prentisiaethau ym mhob un o'r crefftau perthnasol. Bydd hyn yn cynnig profiad go iawn mewn meysydd fel ynni adnewyddadwy, ôl-osod, technolegau sy'n arben ynni a dŵr, a thechnegau adeiladu sy'n defnyddio deunyddiau nad ydynt yn draddodiadol fel pren.

Tabl 16: Sgiliau, prentisiaethau a chreu swyddi

| **Sgôr** | **Sefydliad** | **Enw'r cynnig** | **Lleihau allyriadau carbon a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd** | **Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth** | **Economi gylchol** | **Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19** | **Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad ar y cyd: CGGC a FFCC | Gwasanaeth Natur Cenedlaethol Cymru | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 1 | Groundwork in Wales | Sgiliau Gwyrdd: Swyddi Gwyrdd: | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |

[60] 'Ail-greu ar ôl COVID-19: yr heriau a'r blaenoriaethau', Llywodraeth Cymru, Hydref 2020

| Sgôr | Sefydliad | Enw’r cynnig | Lleihau allyriadau carbon a chynyddu’r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd | Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth | Economi gylchol | Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19 | Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Adferiad Gwyrdd – rhaglen cyflogadwyedd werdd pobl ifanc 16-24 | | | | | |
| 1 | Wildlife Trusts Wales | Cronfa Swyddi Adnoddau Naturiol | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 1 | Cadw Gymru’n Daclus | Prentisiaethau Trwsio | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 1 | Cendlaethau Dyfodol Cymru | Swyddi ar gyfer y rhai sy'n gadael yr ysgol' - annog sefydliadau ym mhob sector i gofrestru ac ymgymryd â'r rhai sy'n gadael yr ysgol gyda chymorth cyllid gan Twf Swyddi Cymru. | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 1 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Sgiliau ar gyfer adferiad gwyrdd | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | Cendlaethau Dyfodol Cymru | Sicrhau bod Contract Economaidd Llywodraeth Cymru yn sbardun cadarn am newid, gan gyflawni'r uchelgais bydd busnesau a gefnogir yn ymrwymo i gyflawni Cymru wyrddach, fwy | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |

| Sgôr | Sefydliad | Enw’r cynnig | Lleihau allyriadau carbon a chynyddu’r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd | Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth | Economi gylchol | Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19 | Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ffyniannus a chyfartal | | | | | |

## Modelau ariannu a darparu amgylcheddol

Roedd derbyniad cynyddol cyn Covid-19 na fyddai dibyniaeth ar arian cyhoeddus yn unig yn ddigon i fodloni maint y buddsoddiad sy’n ofynnol i fynd i’r afael â’r argyfyngau hinsawdd a natur.[61] Mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod bod Covid-19 yn debygol o gael effaith sylweddol a hirhoedlog ar gyllid cyhoeddus, ac felly mae’n rhaid cyflymu’r gwaith o ddatblygu a phrofi dulliau ariannol a modelau darparu amgen yn rhan o’r adferiad gwyrdd.

## Beth sydd angen digwydd – Cyfleoedd i’r Adferiad Gwyrdd o ran modelau ariannu a darparu amgylcheddol

Mae nifer sylweddol o gynigion yn ymwneud â bwyd, y môr, dŵr, bioamrywiaeth, teithio cynaliadwy, twristiaeth a thai yn nodi modelau darparu amgen neu fecanweithiau cymhelliad ariannol a rhoddwyd sylw iddynt yn yr adrannau blaenorol.

Yn ogystal â’r cynigion penodol i sectorau hyn, rydym wedi derbyn tri chynnig sy’n ymwneud â dulliau ariannu gwyrdd strategol. Mae’r Grŵp yn cydnabod y gallai’r rhain chwarae rhan hollbwysig i gynorthwyo darpariaeth Atebion ar Sail Natur ledled Cymru. Mae un cynnig yn cyflwyno’r achos strategol dros ddatblygu a phrofi dulliau/mecanweithiau ariannol amgen, ac mae dau gynnig cysylltiedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud â datblygu ‘marchnad werdd’. Byddai marchnad werdd yn golygu datblygu porth ar-lein i alluogi’r rhai â chynlluniau datblygedig ar gyfer buddsoddi mewn Atebion ar Sail Natur i gael eu cysylltu â buddsoddwyr preifat. Ochr yn ochr â hyn, ceir cynnig ariannol cyfunol i archwilio gwahanol ffyrdd o ysgogi buddsoddiad ar gyfer cyfalaf naturiol trwy bwyslais ar gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Croesewir y cynigion hyn gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a fydd yn cefnogi datblygiad achosion busnes manwl.

[61] Scottish Wildlife Trust a SEPA, Mai 2020, ‘Route towards £1 billion investment for nature conservation’ https://scottishwildlifetrust.org.uk/news/route-map-to-1-billion-for-nature-conservation-published/

## Sut y caiff y gwaith hwn ei ddatblygu – Cyfleoedd i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ar gyfer natur, datgarboneiddio a'r economi gylchol

Trwy'r pandemig yng Nghymru, mae'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector wedi creu cysylltiadau newydd ac wedi llunio ffyrdd newydd o weithio sydd wedi ysgogi arloesedd a chreu ysbryd newydd o gydweithrediad. Mae'n rhaid adeiladu ar y dull hwn drwy'r adferiad gwyrdd, gan ddefnyddio ein harweinyddiaeth gyfunol i osgoi camu yn ôl i'r hen ffyrdd ar wahân o weithio.

Datblygu mentrau cydweithredol ac ysgogi arloesedd fydd yn allweddol i'r adferiad gwyrdd ac mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi ymrwymo i ymgysylltu â busnesau preifat a'r sector gwasanaethau ariannol i ystyried ffyrdd amgen o fanteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad i gefnogi'r adferiad gwyrdd.
Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn llawn ddisgwyl na fydd llawer o'r cynigion yn gweithio fel y bwriadwyd, ond bydd y dysgu yn ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth i symud y cynigion nesaf yn eu blaenau. Wrth lunio dulliau darparu neu ddulliau ariannol newydd, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod bod eu llwyddiant yn ddibynnol ar dderbyn goddefiad uwch o risg. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn derbyn y risg hon ac mae wedi ymrwymo i gefnogi cynigion yn weledol, i brofi modelau newydd ac i rannu'r hyn a ddysgir.

Tabl 17: Modelau ariannu a darparu amgylcheddol

| Sgôr | Sefydliad | Enw'r cynnig | Lleihau allyriadau carbon a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd | Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth | Economi gylchol | Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19 | Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Bwrw ymlaen efo Rhaglen Marchnad Werdd CNC | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 1 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Defnyddio Cyllid Cyfunol i helpu i gyflawni'r Adferiad Gwyrdd | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 1 | WWF Cymru | Datblygu a Defnyddio Mecanweithiau Ariannu Newydd | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | VocalEyes | Cymru gyfranogol - Gweithredu cydgysylltiedig | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |

| Sgôr | Sefydliad | Enw'r cynnig | Lleihau allyriadau carbon a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd | Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth | Economi gylchol | Grwpiau, cymunedau a lleoedd sydd fwyaf agored i niwed / sydd wedi cael eu taro galetaf gan Covid-19 | Creu swyddi, datblygu sgiliau a marchnadoedd newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ar y cyd ar yr Hinsawdd ledled Cymru | | | | | |
| 2 | Renew Wales | 'Renew Wales 2.0' | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | Cynnal Cymru-Sustain Wales | Gwasanaeth cymorth traws-sector cenedlaethol ar gyfer prosiectau amgylcheddol a arweinir gan y gymuned | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |
| 2 | ERS Cymru | Cynnwys dinasyddion Blaenau Gwent yn yr adferiad gwyrdd | Yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Dim yn cyfrannu | Yn cyfrannu | Yn cyfrannu |

# 7. Y camau nesaf – Sefydlu Partneriaeth Darparu Adferiad Gwyrdd

Mae'r adferiad gwyrdd yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i gyflymu datblygiad ar hyd llwybr mwy cynaliadwy. Mae'r Grŵp o'r farn na fydd newid fesul tipyn yn ddigon i ysgogi'r newidiadau systemig a thrawsnewidiol sydd eu hangen ar gyfer adferiad cymdeithasol gyfiawn a gwyrdd.

Mantra'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen trwy gydol ei amser yn gweithio gyda'i gilydd fu sut i wneud pethau ddigwydd i gyflawni gwelliannau ar lawr gwlad. Er ei fod yn cydnabod bod llawer o'r fframwaith strategol a pholisi ar waith, trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn bod bwlch gweithredu eglur.

Mae llenwi'r bwlch hwn wedi ysgogi dull y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, wrth iddo geisio gwneud i bethau ddigwydd yn gyflym, gan adeiladu momentwm trwy ddangos yr hyn y gellir ei gyflawni trwy gydweithio a chwilio'n weithredol am ddulliau arloesol y gellir eu profi.

Mae aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi ymrwymo i ffurfio Partneriaeth Darparu Adferiad Gwyrdd. Trwy gyfuno eu harweinyddiaeth gyfunol, bydd y Grŵp yn bwrw ymlaen â gweithrediad y cynigion, gan ddefnyddio ei rwydweithiau a'i adnoddau i wneud i bethau ddigwydd.

Bydd aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn darparu'r trosolwg gweithredol a'r llyw strategol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi cytuno i fod yn rhan o'r Grŵp i sicrhau cydgysylltiad priodol a gweithio trawslywodraethol yn rhan o'r ymateb ehangach i Covid-19.

Dros y flwyddyn nesaf, bydd y Grŵp yn canolbwyntio ar gefnogi a datblygu cynigion sy'n cefnogi uchelgeisiau adferiad gwyrdd y llywodraeth ac yn ysgogi gweithgarwch ar draws y rhwydweithiau sy'n cael eu cwmpasu gan aelodau'r Grŵp. Yn benodol, bydd yn:

- Cyfeirio cynigion a nodwyd at ffynonellau o gymorth a chyllid sy'n bodoli eisoes.
- Rheoli datblygiad a darpariaeth cynigion lle mae'r cymorth neu'r cyllid yn rhan uniongyrchol o gylch gwaith aelodau'r Grŵp.
- Datblygu, trwy ymgysylltu â'u rhwydweithiau a thu hwnt, cynigion pellach gyda'r nod o gynhyrchu piblinell o brosiectau sy'n cefnogi uchelgeisiau adferiad gwyrdd.
- Datblygu opsiynau ar gyfer gwella mentrau adfer a arweinir gan y gymuned, â phwyslais penodol ar gymunedau mwy difreintiedig.
- Datblygu dulliau gofodol i alluogi mentrau i gael eu targedu at ardaloedd a chymunedau sydd wedi cael eu taro waethaf gan Covid-19.
- Nodi unrhyw fecanweithiau pellach sydd eu hangen, neu rwystrau i gael gwared arnynt, i gefnogi adferiad gwyrdd.
- Sicrhau bod ei gwaith yn cael ei fframio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd, y ffyrdd cyfunol o weithio, agenda cyfiawnder cymdeithasol y llywodraeth, ac ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Yn amlwg, bydd hyn yn gofyn am ymrwymiad adnoddau a, chan gydnabod y pwysau enfawr ar y llywodraeth, mae'r Grŵp wedi cytuno i sefydlu swyddfa partneriaeth darparu adferiad gwyrdd dros dro wedi'i chynnal gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid yw hyn yn golygu ei bod yn endid Cyfoeth Naturiol Cymru: bydd yn cadw ei hannibyniaeth ond bydd ganddi fynediad at seilwaith y swyddfa.

Ymrwymwyd adnoddau staff gan Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Busnes yn y Gymuned, Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a'r Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad. Bydd aelodau eraill o'r Grŵp, pan fyddant yn gallu, yn darparu eu harbenigedd pan fo'n briodol i gefnogi cynigion.

# Atodiadau

## Atodiad 1:

### Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol – Adferiad Glas/Gwyrdd

Mae Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG) yn datgan yn glir y dylai'r ysgogiad Adferiad Gwyrdd gynnwys pecyn Adferiad Glas integredig sy'n canolbwyntio ar gymunedau morol ac arfordirol. Mae WMAAG eisoes wedi cael mewnbwn gan y Sefydliad Economeg Newydd ar y Fargen Newydd Las[62] sy'n rhoi ysbrydoliaeth ac arweiniad ar gyfer ffocws adferiad glas.

Derbyniodd y Panel Adferiad amrywiaeth o gyflwyniadau yn canolbwyntio ar adfer y môr a'r arfordir a all fod yn sail i becyn integredig. Cynhaliodd aelodau WMAAG asesiad cychwynnol o'r cyflwyniadau a dderbyniwyd yn erbyn meini prawf sy'n cael eu cymhwyso gan y Panel Adferiad Gwyrdd (amgaeedig a chyfeirir atynt isod). Teimlai'r Aelodau nad oedd yn briodol cefnogi cyflwyniadau unigol gan y dylai'r holl waith pellach gofynnol fod yn ddarostyngedig i'r prosesau priodol drwy'r strwythurau sefydledig a gallu dangos cyfranogiad cymunedau rhanddeiliaid.

Ymrwymodd aelodau WMAAG i gefnogi'r gwaith o gynllunio a chyflwyno pecyn ysgogi integredig ar gyfer adferiad glas a chydnabu fod gorgyffwrdd sylweddol mewn llawer o'r cynigion, gan adlewyrchu rhai meysydd ffocws penodol o ran sicrhau adferiad glas, a nodir isod.

Y pwyntiau allweddol yw:

• Rydym ni'n genedl arfordirol ac mae ein hamgylchedd morol yn mwy na dyblu maint Cymru. Mae hyn yn darparu cyfleoedd amrywiol ar gyfer adferiad glas, ond bydd hyn yn gofyn am adolygiad o ddyraniadau cyfredol y gyllideb, er mwyn sicrhau bod adferiad gwyrdd yn rhan annatod o gymhellion cyllidol ac nid arwyddion symbolaidd (129 a 56 - trawsbynciol ar draws yr holl gynigion)

• Mae cymunedau arfordirol yng Nghymru yn wynebu effeithiau economaidd uniongyrchol Covid-19 a Brexit (24,106, 49), mewn llawer o achosion ochr yn ochr â her tymor hwy newid arfordirol o ganlyniad i newid hinsawdd.

• Mae cyfle sylweddol nawr i gymunedau arfordirol arwain ar adferiad glas - gan sicrhau gwelliannau ystyrlon i lesiant drwy ddefnyddio dull integredig sy'n cydnabod y berthynas rhwng arfordiroedd a moroedd iach ac economïau lleol. Gallai rhaglen o'r fath fynd i'r afael â:

- Rôl bwysig yr amgylchedd morol ac arfordirol, o ran sicrhau manteision ehangach, gan gynnwys dal a storio Carbon Glas[63], cefnogi twristiaeth arfordirol ac iechyd a lles meddyliol a chorfforol. Y cyfle i adfer a gwella ecosystemau morol er mwyn sicrhau manteision ehangach pwysig fel y rhain. (T 24, 106, 130, 22, 129,130)

---

[62] https://neweconomics.org/campaigns/blue-new-deal

[63] https://cdn.naturalresources.wales/media/692035/nrw-evidence-report-428_blue-carbon_v11-002.pdf

- Her addasu i'r newid hinsawdd arfordirol gyda lefelau'r môr yn codi, pwysigrwydd atebion sy'n seiliedig ar natur a'u potensial ar gyfer manteision niferus, i'r ecosystem a phobl.
- Yr argyfwng natur a'r angen i adfer ecosystemau morol am eu gwerth cynhenid, fel y cydnabyddir yn egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.
- Y ffocws ar botensial economaidd adferiad gwyrdd ased naturiol yr amgylchedd morol - ar gyfer dyframaethu (T.47), twristiaeth (T.49, 75), economi gylchol (T.53)
- Potensial ynni adnewyddadwy morol (T.92,131,132) i gyfrannu at yr agenda datgarboneiddio tra'n sicrhau adferiad natur. Pwyslais ar y dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi dull cynaliadwy, a phwysigrwydd buddsoddi mewn dull cyd-gynhyrchu ar gyfer pob elfen forol, sy'n ymgysylltu â chymunedau lleol (T.24,106,49).

Mae gwaith i'w wneud i lunio pecyn adferiad glas integredig, cysylltu syniadau mewn gwahanol gyflwyniadau ac ystyried cynnwys modelau ariannu arloesol. Mae ymateb cychwynnol yn awgrymu'r canlynol fel elfennau allweddol:

## Er mwyn i unrhyw un o'r cynigion weithio, mae'n hanfodol ymgysylltu'n gynnar â'r gymuned a'i chynnwys yn y gwaith datblygu

Fel y dangosir yn yr adroddiad 'Getting Below the Surface', sy'n dod i'r casgliad bod dealltwriaeth y cyhoedd o rôl y cefnfor o ran cefnogi bywyd a chynnal a rheoleiddio systemau planedol yn fach iawn, a bod cyfres o dyllau yn syniadau'r cyhoedd am gadwraeth gefnforol a morol sy'n effeithio ar barodrwydd pobl i ymgysylltu â materion morol ac yn tanseilio eu cefnogaeth i atebion penodol. Mae nifer o'r cyflwyniadau a dderbyniwyd yn cynnig datblygu llythrennedd cefnforol a gallu cymunedol i gryfhau'r strwythurau presennol er mwyn gallu cyflawni'r atebion hyn - *"rhaglen ariannu integredig sy'n cefnogi cymunedau arfordirol y mae angen iddyn nhw addasu yn wyneb newid arfordirol, mewn ffordd sy'n eu gwneud yn fwy gwydn o ran economïau, ecosystemau a lles lleol. "*

## Adfer Ecosystemau Morol

Mae sawl cyflwyniad wedi cyflwyno cynigion i fynd i'r afael â blaenoriaeth adfer ecosystemau morol drwy gryfhau a darparu adnoddau i reoli'r ardaloedd morol gwarchodedig, gan gynnwys cyflawni camau gweithredu i wella cyflwr Ardaloedd Morol Gwarchodedig a nodi cyfleoedd i adfer rhai cynefinoedd morol ac arfordirol fel riff wystrys brodorol, morwellt a morfeydd heli.

Mae adroddiad "Carbon Glas" CNC yn tynnu sylw at werth buddsoddiad o'r fath mewn dal a storio carbon, tra bydd gwelliannau yn iechyd ecosystemau morol yn sicrhau gwerth economaidd drwy'r sectorau pysgota a thwristiaeth.

Gellid sicrhau gwerth sylweddol drwy gyllid wedi'i dargedu a fyddai'n mynd i'r afael â chamau gweithredu i wella cyflwr a rheolaeth y rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol, gan ysgogi adferiad natur, gyda manteision economaidd cysylltiedig.

## Rhaglen Cyflogadwyedd Gwyrdd/Ieuenctid (neu’r Gwasanaeth Natur Cenedlaethol)

Mae’r Panel Adferiad Gwyrdd wedi derbyn cynigion ar gyfer Cynllun Gwasanaeth Natur Cenedlaethol Cymru. Dylai hyn gydnabod y cyfle ar gyfer lleoliadau morol. Y nod fydd meithrin gallu lleol gan gysylltu cymunedau arfordirol â’u hamgylchedd morol a’r cyfleoedd niferus i gefnogi llesiant a ddarperir gan yr arfordir a’r môr lleol. Byddai gan y lleoliadau hyn rôl allweddol o ran cefnogi’r **Gronfa Arfordirol Twf Glas** arfaethedig a byddan nhw’n cael eu lleoli mewn partneriaethau arfordirol sy’n cynnwys cynghorau lleol, cymunedau, cyrff anllywodraethol a’r sector preifat. Byddai’r rhaglen hon hefyd yn defnyddio profiad Rhwydwaith Morol Cernyw ac yn annog datblygu clwstwr morwrol i gefnogi cydweithio, cydweithredu a rolau interniaeth a phrentisiaethau i bobl ifanc mewn cymunedau arfordirol.

## Cronfa Arfordir Twf Glas

Y diben fydd gwella Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol drwy brosiectau a fydd yn cefnogi’r broses o adfer ecosystemau morol ac yn creu manteision economaidd a chymdeithasol niferus.

Byddai’r gronfa’n cynnwys ariannu partneriaethau arfordirol o’r fath yn uniongyrchol er mwyn gallu ymgynghori a chynnwys cymunedau arfordirol wrth ddatblygu dealltwriaeth o newid arfordirol, cyfleoedd ar gyfer atebion sy’n seiliedig ar natur, adfer ecosystemau morol a chyfleoedd economaidd cysylltiedig, gan gynnwys defnyddwyr allweddol a gwarcheidwaid yr amgylchedd morol.

Mae potensial sylweddol i archwilio cyllid cynaliadwy ar gyfer cronfa o’r fath yn cael ei sefydlu gan y Llywodraeth ond hefyd yn cael ei gefnogi gan ddiwydiannau sy’n dibynnu ar yr amgylchedd morol ond yn bwysig yn dilyn egwyddor CBD a chyfranogiad cyrff anllywodraethol amgylcheddol allweddol i sicrhau nad yw’r cynllun yn cael ei ystyried yn broses o wrthbwyso bioamrywiaeth. Byddai’n cael ei weinyddu drwy strwythur llywodraethu annibynnol i sicrhau cyngor annibynnol.

## Tystiolaeth dros ynni adnewyddadwy morol

Mae angen dybryd i gynyddu tystiolaeth a monitro defnyddio ynni adnewyddadwy morol yn nyfroedd Cymru er mwyn hwyluso proses gydsynio symlach sy’n galluogi defnyddio technolegau’n gynaliadwy. Dylid cyflawni hyn drwy **gefnogi’r Grŵp Cynghori Strategol Cydsynio** gydag adnodd pwrpasol i ehangu’r broses o gasglu data, casglu’r wybodaeth a rhoi trosolwg o botensial morol.

## Lleihau llygredd morol drwy economi gylchol

Mae llygredd yn ein moroedd yn cynyddu (gweler canlyniadau MCS GBBC 2019 ). Sefydlwyd Partneriaeth Moroedd Glân Cymru gan WMAAG i fynd i'r afael â'r mater hwn ond mae angen cymryd mwy o gamau sy’n ymwneud â’r economi gylchol i leihau eitemau sbwriel yn y ffynhonnell ac effeithio ar newid ymddygiadol.

Mae cyflwyniadau diwydiannau’r tir eraill a dderbyniwyd gan y Panel Adferiad Gwyrdd yn hollbwysig i'r amgylchedd morol. Mae mynd i'r afael â llygredd yn y môr hefyd yn golygu

mwy o weithredu i lanhau ein systemau afonydd, lle mae angen buddsoddiad sylweddol mewn gwella ansawdd, yn enwedig mynd i'r afael â llygredd amaethyddol gwasgaredig.

I gloi, mae aelodau WMAAG yn pwysleisio na ddylai unrhyw agwedd ar ysgogi adferiad ehangach niweidio neu leihau asedau morol.